



Canllaw ar y
Cynllun Gradd Sêr

LLETY AR GAMPWS

Cynnwys

- 1.0 **Cyflwyniad**
- 1.1 Diffiniad o Lety ar Gampws
- 1.2 Datblygu'r safon
- 1.3 Y broses asesu
- 1.4 Datganiad Mynediad
- 1.5 Arferion Da ym maes Hygyrchedd – Cyflwyniad
- 1.6 Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd – Cyflwyniad
- 1.7 Naws am Le
- 2.0 **Y Safon Ansawdd ar gyfer Llety ar Gampws**
- 2.1 Gofynion Mynediad Sylfaenol
- 2.2 Asesu Ansawdd
- 2.3 Rhwymedigaethau Statudol
- 2.4 Glendid
- 2.5 Gwasanaeth a Lletygarwch
- 2.6 Ystafelloedd Gwely
- 2.7 Toiledau, Ystafelloedd Ymolchi ac Ystafelloedd Cawod
- 2.8 Prydau Gwesteion
- 2.9 Mannau Cyhoeddus
- 2.10 Gofynion Cyffredinol
- 2.11 Cegin (lle y caiff unedau eu marchnata fel rhai hunangynhwysol)
- 3.0 **Canllawiau Ansawdd ar gyfer Campws**
- 3.1 Dangosyddion Ansawdd
- 3.2 Y Tu Allan
- 3.3 Glendid
- 3.4 Archebu Llety a Gwybodaeth
- 3.5 Ansawdd Cyflwyno Gwybodaeth i Westeion a Thwristiaid
- 3.6 Ystafelloedd Gwely – Ansawdd a Chyflwr
- 3.7 Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau
- 3.8 Lloriau
- 3.9 Gwelyau a Dillad Gwely
- 3.10 Goleuadau/Systemau Gwresogi/Dulliau Awyru – Ansawdd y Ddarpariaeth
- 3.11 Gofod, Cysur a Hwylustod
- 3.12 Ystafelloedd Ymolchi/Cyfleusterau En suite/Toiledau – Ansawdd a Chyflwr
- 3.13 Addurno
- 3.14 Offer Ymolchfa a Gosodiadau

- 3.15 Lloriau
- 3.16 Goleuadau, Systemau Gwresogi a Dulliau Awyru
- 3.17 Gofod, Cysur a Hwylustod
- 4.0 Pob Man Cyhoeddus**
- 4.1 Addurno
- 4.2 Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau
- 4.3 Lloriau – Ansawdd a Chyflwr
- 4.4 Goleuadau a Systemau Gwresogi – Ansawdd y Ddarpariaeth
- 4.5 Gofod, Cysur a Hwylustod
- 5.0 Ystafell Fwyta neu Fwyty – Ansawdd a Chyflwr**
- 5.1 Addurno
- 5.2 Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau
- 5.3 Lloriau – Ansawdd a Chyflwr
- 5.4 Goleuadau a Systemau Gwresogi – Ansawdd y Ddarpariaeth
- 5.5 Gofod, Cysur a Hwylustod
- 6.0 Aseidiadau Ansawdd Dros Nos**
- 6.1 Gweithdrefnau Archebu Llety a Phrisiau
- 6.2 Lletygarwch a Chyfeillgarwch
- 6.3 Gwasanaeth Brecwast
- 6.4 Brecwast – Ansawdd a Chyflwyniad
- 6.5 Gwasanaeth Pryd Nos
- 6.6 Pryd Nos (lle y caiff ei ddarparu) – Ansawdd a Chyflwyniad
- 6.7 Llestri Bwrdd
- 7.0 Cod Ymddygiad**
- 8.0 Amodau ar gyfer Cymryd Rhan**
- 9.0 Newid Perchenogaeth**
- 10.0 Arwyddion**
- 11.0 Beth i'w Wneud Os Na Fyddwch yn Cytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd**

1.0 Cyflwyniad

Ystyrir mai cael cynnyrch o ansawdd yng Nghymru yw'r ffactor pwysicaf er mwyn i Gymru allu cynnig profiad o'r radd flaenaf i'w hymwelwyr a gallu cystadlu yn y farchnad fyd-eang. Mae Croeso Cymru yn cydnabod hyn ac yn ymrwymedig i weithio gyda'r diwydiant er mwyn sicrhau y bydd ein llety, ni waeth pa fath o lety ydyw, yn parhau i fod yn gystadleuol.

Bydd gradd sêr yn bwysig i ddefnyddwyr wrth iddynt ddewis rhywle i aros ynddo neu ymweld ag ef a bydd ystod Croeso Cymru o Gynlluniau Gradd Sêr yn rhoi tawelwch meddwl i unrhyw ddefnyddiwr y bydd unrhyw eiddo sy'n arddangos argymhelliad swyddogol gan Croeso Cymru wedi cael ymweliad i fwrw golwg dros y lle cyn i chi gyrraedd.

Mae codi safonau yn hollbwysig i ddatblygiad twristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, felly byddem yn eich annog i weithio gyda Croeso Cymru drwy ba un bynnag o'n cynlluniau gradd sêr sydd fwyaf addas i'r math o eiddo sydd gennych.

1.1 Diffiniad o Lety ar Gampws

Preswylfa i fyfyrwyr a godwyd i'r pwrpas sy'n cynnig llety ac sydd ar gael yn ystod y gwyliau yn bennaf i deuluoedd, unigolion neu grwpiau, gyda'r opsiwn o osod llety ar ffurf ystafell yn unig, llety hunanddarpar neu lety gwely a brecwast â gwasanaeth. Gall cyfleusterau ychwanegol gynnwys manau gwerthu bwyd a diod, cyfleusterau chwaraeon a/neu gynadledda. Mae'n bosibl y caiff y cyfleusterau hyn eu cynnwys yn y tariff, ond nid o reidrwydd.

1.2 Datblygu'r safon

Er mwyn i bobl sy'n ymweld â Chymru ac sydd am aros mewn llety ar gampws fod yn dawel eu meddwl bod y llety wedi cyrraedd safon benodol, mae Croeso Cymru yn cynnig cynllun asesu ansawdd sy'n arwain at ddyfarnu gradd sêr i'r llety dan sylw.

Er ei bod yn bosibl mai dim ond ar adegau penodol o'r flwyddyn y bydd y math hwn o lety ar gael i ymwelwyr, mae Croeso Cymru yn cydnabod gwerth y cynnyrch hwn a'r galw amdano.

Caiff asesiadau dros nos eu cynnal o bryd i'w gilydd, ond mae'n bosibl y cânt eu cynnal yn amlach os ceir cwynion gan ddefnyddwyr neu os bydd unrhyw fater arall sy'n peri pryder a bod Croeso Cymru o'r farn bod angen aros

dros nos eto. Yr agweddau a gaiff eu hasesu wrth gynnal asesiad dros nos yw: Lletygarwch a chyfeillgarwch, gwasanaeth/effeithlonrwydd prosesau archebu llety, cyrraedd a gadael, asesu gwasanaeth prydau bwyd, ansawdd y bwyd a'r amrywiaeth sydd ar gael.

1.3 Y broses asesu

Mae dwy agwedd i'r broses:

- 1) Bydd yr Asesydd Ansawdd yn edrych i weld a yw'r holl ofynion mynediad sylfaenol* (cyfleusterau a gwasanaethau) wedi'u bodloni'n llawn – mae eu manylion i'w gweld yn hanner cyntaf y canllaw hwn – ac yna
- 2) Bydd yr Asesydd Ansawdd yn rhoi sgôr ansawdd o 1 i 5 i bob rhan a gaiff ei graddio, a fydd yn arwain at sgôr ganrannol derfynol gyffredinol, a'r sgôr hon fydd yn penderfynu'r radd sêr derfynol. Mae manylion am yr agwedd hon yn dechrau ar dudalen 9.

*Ceir dau achos lle y bydd angen darparu cyfleusterau sy'n rhagori ar y gofynion sylfaenol (yn ogystal ag ennill y sgôr ganrannol berthnasol am ansawdd) er mwyn symud i radd uwch, sef:

3 Seren – Gwelyau – Maint

Gofynion ar gyfer 3 seren ac uwch:

- Sengl 190 x 90cm (6'3 x 3')
- Dwbl 190 x 137cm (6'3 x 4'6) ond
- Os mai gwelyau o'r isafswm maint gwely yn unig a ddarperir, ni fydd modd ennill gradd derfynol uwch na 2 seren. Mae'r gofynion maint sylfaenol ar gyfer gwelyau i'w gweld ar dudalen 5.

3 Seren – Gofynion Mynediad Sylfaenol ar gyfer

Ystafelloedd Ymolchi/En Suite/Toiledau

- O leiaf un ystafell â bath neu gawod a basnau golchi dwylo i bob 12 o westeion, ond,
- Er mwyn ennill gradd derfynol o 3 seren neu uwch, dylai fod un ystafell â bath neu gawod a basn golchi dwylo i bob 6 phreswlydd.

Caiff ansawdd ei asesu yn y meysydd canlynol:-

- Y Tu Allan
- Glendid
- Archebu Llety a Gwybodaeth
- Ystafelloedd Gwely
- Ystafelloedd Ymolchi/En Suite/Toiledau
- Pob Man Cyhoeddus
- Ystafell Fwyta/Bwyty
- Pan gaiff Asesiadau Ansawdd Dros Nos amserol eu cynnal fel sy'n briodol, bob tair blynedd fel arfer

- Lletygarwch a Gwasanaethau
- Caiff ansawdd y bwyd ym mhob pryd bwyd ei gynnwys a bydd yn effeithio ar y radd sêr derfynol.

Bydd y sgôr rifyddol a roddir yn cyfateb i ddisgrifiad o lefel ansawdd. Felly, os bydd ansawdd rhywbeth yn Ardderchog, rhoddir sgôr o 5 iddo. Er mwyn osgoi unrhyw duedd, caiff ein haseswyr eu hyfforddi'n drwyadl a byddant yn dilyn canllawiau a chyfarwyddiadau penodedig. Mae'r gwerth pwyntiau gwahanol yn dynodi lefelau ansawdd esgynnol:

- Ansawdd Ardderchog – 5 pwynt
- Ansawdd Da lawn – 4 pwynt
- Ansawdd Da – 3 phwynt
- Ansawdd Eithaf Da – 2 bwynt
- Ansawdd Derbyniol – 1 pwynt

Pan fydd ffurflen yr adroddiad wedi'i llenwi a'r sgoriau wedi'u dyrannu, caiff y cyfanswm ei gyfrifo a chaiff sgôr ganrannol ar gyfer ansawdd y busnes cyfan ei chyfrifo. Drwy edrych ar ystod canrannau'r bandiau sêr, gall yr Asesydd Ansawdd gael syniad ar hyn o bryd o'r hyn y gallai'r radd sêr gyffredinol fod.

Yr isafswm sgôr ansawdd ganrannol sydd ei hangen ar gyfer pob gradd sêr

Gradd Sêr	Isafswm %
★	35%
★★	44%
★★★	60%
★★★★	75%
★★★★★	85%

1.4 Datganiad Mynediad

Beth yw Datganiad Mynediad? Cyfrif clir, cywir a gonest yw hwn o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y gall ymwelwyr anabl eu disgwyl NAWR, gan eu galluogi i ddewis y lleoliad sydd fwyaf addas iddynt.

NODER: Un o amodau cael eich sgorio gan Croeso Cymru yw bod yn rhaid llunio datganiad mynediad a nodi pa mor hygyrch yw eich busnes. Dylai gael ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau dros amser, a dylai fod ar gael i ddarpar westeion. Mae'n syniad da rhoi'r Datganiad Mynediad ar-lein fel arfer. Am gyngor ar sut i ysgrifennu Datganiad Mynediad, ewch i: www.visitbritain.org/business-advice/make-your-business-accessible/create-accessibility-guide
<http://www.visitengland.org/access>

1.5 Arferion Da ym maes Hygyrchedd – Cyflwyniad

Tra bo'r Datganiad Mynediad yn disgrifio'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n gwybod bod Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr llety i gael gwared ar rwystrau a gwella hygyrchedd i ymwelwyr lle bo hynny'n rhesymol. Mewn llawer o'r adrannau ar agwedd ansawdd yr asesiad, rydym wedi cynnwys nodiadau canllaw i'ch helpu i gyflawni'r amcan hwn. Er y bydd rhai awgrymiadau yn fwy perthnasol i rai nag eraill, rydym yn hyderus y byddwch yn gallu cyflawni rhai ohonynt, beth bynnag fo maint eich busnes. Gobeithio y bydd ein hawgrymiadau yn rhoi rhywfaint o arweiniad ymarferol i chi ar ddod yn fwy cynhwysol, ond cofiwch na ydynt yn hollgynhwysfawr o bell ffordd.

Caiff y canllawiau arferion da eu rhoi yn y rhan o'r llyfr hwn sy'n cynnwys canllawiau ansawdd, yn y rhan fwyaf priodol o'r adran y maent yn berthnasol iddi.

1.6 Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd – Cyflwyniad

Mae diogelu a gwarchod ein planed rhag effaith ddinistriol bywyd modern yn fater pwysig i fwy a mwy o bobl. Os nad ydych yn gwneud eisoes, hoffem eich gwahodd i ystyried sut y gallech wneud newidiadau bach i'r ffordd rydych yn rhedeg eich busnes er mwyn dangos i'ch ymwelwyr eich bod yn cymryd camau ecogyfeillgar. Gall hyn helpu i wella profiad gwesteion sy'n talu a hefyd helpu'r economi leol rydych yn rhan ohoni. Gall wneud synnwyr busnes da, dwy leihau eich costau a chynyddu eich elw.

Yn yr un modd â'r cyngor ar fynediad, nid yw'r cyngor hwn yn hollgynhwysfawr ac, os hoffech gael rhagor o gyngor ar y mater hwn, cysylltwch â gwasanaeth cynghori busnesau Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio'r ffurflen ymholi sydd ar gael yn <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/pecyn-cymorth-cynaliadwy> neu drwy ffonio 03000 6 03000

1.7 Naws am Le

Er nad yw ansawdd byth yn colli ei blwyf, bydd creu Naws am Le yn helpu i sicrhau bod eich ymwelwyr yn cael profiad bythgofiadwy. Gall fod yn rhywbeth syml, fel ychwanegu arwyddion, cynnyrch, neu nodwedd at eich busnes er mwyn creu nawws lleol. Neu beth am ddysgu

ffeithiau diddorol am eich ardal i'w rhannu â'ch ymwelwyr? Mae 'croeso' syml hefyd yn creu argraff gyntaf arbennig o dda.

Dyma drosolwg o frand Cymru a rhywfaint o arweiniad ar ein naws am le. Gobeithio y bydd hyn yn eich helpu i gynnig profiad heb ei ail i'ch ymwelwyr.

Ewch i <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol> i gael rhagor o wybodaeth.

2.0 Y Safon Ansawdd ar gyfer Llety ar Gampws

Bydd y Safon Ansawdd yn defnyddio system gradd sêr o un i bump, sy'n adlewyrchu'r ansawdd a'r cyfleusterau y mae'r llety ar gampws yn eu cynnig. Lle y bydd gwahaniaeth o ran y math o lety a'i ansawdd, caiff pob bloc llety ei asesu'n unigol a gallai pob un ennill gradd sêr unigol.

2.1 Gofynion Mynediad Sylfaenol

Mae'r gofynion mynediad sylfaenol i fod yn gymwys ar lefel Un Seren, gan gyfuno'r ffordd y caiff cyfleusterau a gwasanaethau eu darparu a'u hansawdd. Mae hyn yn cynnwys darnau gosod, gosodiadau a dodrefn meddal décor ac unrhyw gyfleusterau ychwanegol.

2.2 Asesu Ansawdd

Mae'r Dangosyddion Ansawdd yn y llyfryn hwn yn dangos disgwyliadau ymwelwyr, ond nid ydynt yn ddiamed nac yn hollgynhwysfawr.

Defnyddir ymadroddion fel 'derbyniol', 'da', 'da iawn' ac ati i ddynodi lefelau ansawdd esgynnol mewn ffordd gyffredinol yn unig. Maent yn amhenodol yn fwriadol, er mwyn cydnabod yr amrywiaeth eang o elfennau ansawdd y gellid eu cynnwys.

2.3 Rhwymedigaethau Statudol

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Cyflawni'r rhwymedigaethau statudol, lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys:

- Rhagofalon Tân
- Gorchmynion Arddangos Prisiau
- Diogelwch/Hylendid Bwyd
- Trwyddedu
- Iechyd a Diogelwch
- Gwahaniaethu
- Disgrifiadau Masnach

- Diogelu Data
- Deddf Perchnogion Gwestai

Gofynnir i weithredwyr ddangos tystiolaeth bod Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn cael ei gynnal a bod y gofynion uchod yn cael eu bodloni.

2.4 Glendid

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Mae glendid yn hollbwysig i westeion, felly rhaid cyrraedd a chynnal safon uchel o lendid ym mhob rhan o'r eiddo. Rhaid rhoi sylw arbennig i geginau, ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd cawod a thoiledau ac eitemau y bydd gwesteion yn dod i gysylltiad uniongyrchol â nhw, fel dillad gwely, llieiniau, baddonau, cawodydd, basnau ymolchi, toiledau, lloriau, seddi, llestri, cyllyll a ffyrc, llestri gwydr ac offer cegin.

Rhaid glanhau pob ystafell wely ar ôl pob arhosiad a rhaid cynnig eu glanhau bob wythnos pan fydd pobl yn aros am gyfnodau fwy. Gall y gwasanaeth fod yn gyfyngedig ar benwythnosau, ond dylai safonau gwasanaeth gael eu cyhoeddi mewn llyfryn neu roi gwybod i'r gwesteion amdanynt ar adeg archebu llety.

2.5 Gwasanaeth a Lletygarwch

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Gweithdrefnau Archebu Llety a Phrisiau

Mae'r gofynion canlynol yn gymwys i wybodaeth a gaiff ei rhannu ar lafar, mewn llyfrynau ac ar unrhyw wefan o dan reolaeth y gweithredwr:

- Sicrhau bod gwesteion yn gwybod beth yn union sydd wedi'i gynnwys yn y prisiau a ddyfynnir am lety, prydau a lluniaeth, gan gynnwys taliadau gwasanaeth, trethi ac unrhyw daliadau ychwanegol eraill.
- Rhoi disgrifiad teg i bob gwestai a darpar westai o'r amwynderau, cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad, drwy hysbyseb, llyfryn neu wefan, ar lafar neu drwy unrhyw ddull arall.
- Dylai manylion unrhyw bolisiau mewnol, e.e. dim ysmegu, gael eu rhannu ar adeg archebu llety.
- Rhoi gwybodaeth am ba mor agos yw'r llety i drafnidiaeth gyhoeddus, a chynnwys cyfarwyddiadau manwl.
- Dylid esbonio manylion taliadau am wasanaethau neu gyfleusterau ychwanegol sydd ar gael, gan gynnwys telerau canslo os yw hynny'n berthnasol.

- Rhaid esbonio a chyhoeddi amseroedd cyrraedd a gadael yn glir ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau ar fynediad ar adeg cyrraedd.
- Lle y caiff llety ei ddarparu mewn blociau nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif adeilad, rhaid nodi'r amser/pellter cerdded o'r blociau i'r gwasanaethau a chyfleusterau canolog mewn llyfrynau ac ar wefannau fel y gall gwesteion weld y wybodaeth hon cyn archebu llety.

Gwybodaeth i Westeion a Thwristiaid

- Dylai gwybodaeth i dwristiaid fod ar gael yn hawdd ar bob adeg resymol. Gall fod ar gael yn yr ystafelloedd gwely, neu mewn lleoliad canolog, neu'r ddau. Yn ddelfrydol, dylai gynnwys gwybodaeth am yr ardal leol a'r cyffiniau.
- Dylai'r Datganiad Mynediad/gwybodaeth am fynediad fod ar gael.

Trefniadau Cyrraedd a Mynediad i Westeion

- Dylai fod staff ar ddyletswydd yn ystod y cyfnodau pan ddisgwylir i westeion gyrraedd (o 2pm tan 11pm ac o 7am tan 10am fel arfer) ac yn ystod prydau bwyd, os caiff prydau eu gweini.
- Darparu gwasanaeth sy'n briodol i leoliad y llety a'r math o lety, ac ymateb yn brydlon i bob ymholiad, cais, trefniant, gohebiaeth a chwyn gan westeion.
- Sicrhau bod modd i westeion gael sylw'r staff mewn argyfwng. Rhoi manylion clir am leoliad y ffôn talu agosaf yn y dderbynfa pan na fydd rhywun wrth y ddesg.
- Pan fydd gwesteion wedi cofrestru, dylent allu cael mynediad i'r sefydliad ac i'w hystafelloedd gwely bob amser, oni bai eu bod wedi cael gwybod am gyfyngiadau ymlaen llaw. (Mae'n dderbyniol i'r fynedfa fod ar glo a bod angen i'r gwestai ganu cloch neu guro'r drws i gael mynediad neu i gael allwedd/cerdyn allwedd/cod mynediad. Dylid rhoi gwybod i westeion am unrhyw gyfyngiadau ar adeg archebu llety).
- Lle y bydd y gwestai'n talu wrth gyrraedd, dylid rhoi derbynneb gywir iddo ar gais.
- Cofrestru pob gwestai pan fydd yn cyrraedd.

Trefniadau Gadael i Westeion (os byddant yn talu wrth adael)

- Rhoi manylion taliadau sy'n ddyledus a derbynneb fanwl a chlir i bob gwestai, os bydd angen.
- Dylid bod gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion, a dylai fod yn hawdd cael gwybod ble i gwyno.

2.6 Ystafelloedd Gwely

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Cysur a Hwylustod

- Digon o le ym mhob ystafell wely ac ystafell ymolchi i westeion allu symud yn ddirwystr.
- Wrth asesu pa mor dderbyniol yw maint ystafelloedd, bydd aseswyr yn ystyried lle defnyddiadwy o gwmpas celfi a gosodiadau.
- Hefyd, er mwyn cael sgôr ansawdd uwch nag Un Seren, bydd angen i ystafelloedd fod yn fwy o faint gyda chryn dipyn mwy o le defnyddiadwy o gwmpas celfi a gosodiadau.
- Dylid gallu agor droriau a drysau led y pen.

Gwelyau a Dillad Gwely – Maint ac Ansawdd

Isafswm maint gwely:

- Sengl 190cm x 76cm (6'3" x 2'6")
- Dwbl 190cm x 122cm (6'3" x 4')

Os mai gwelyau o'r isafswm maint gwely yn unig a ddarperir, ni fydd modd ennill gradd derfynol uwch na Dwy Seren.

- Dylai fod gan bob matres sbrings neu sbwng y tu mewn, neu fod o ansawdd tebyg, a bod yn fodern ac yn gyfforddus, gydag amddiffynwyr matresi a/neu isflancedi. (Nid yw matresi plastig na rwber yn dderbyniol. Dylai pob gwely fod yn gadarn).
- Dylai'r holl ddillad gwely, gan gynnwys gorchuddion duvet, fod wedi'u gwneud o bolyester a chotwm/cotwm a chael eu newid o leiaf unwaith yr wythnos ac ar gyfer pob gwestai newydd. Nid yw defnyddio cynfas uchaf yn dirymu'r gofyniad hwn.
- Dylai'r holl ddillad gwely fod yn lân a dylai bod digon ohonynt, yn unol â'r tymor ac anghenion gwesteion. Dylai fod o leiaf ddau obennydd i bob person mewn casys gobennydd unigol, a naill ai dwy gynfas, dwy flanced o ansawdd da a chwrlid neu un/dwy gynfas a duvet â sgôr tog addas ynghyd â gorchudd.
- Blancedi a gobennyddion sbâr ar gael ar gais.
- Dylai crudiau, lle y cânt eu darparu, gyrraedd Safonau Prydeinig.

Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

- Dylid darparu desg/bwrdd gwisgo neu gelfi cyfatebol.
- Dylai drych fod ar gael. Gall fod yn yr ystafell wely neu'r ystafell ymolchi (ar gyfer ystafelloedd en suite).
- Cadair neu stôl.

- Wardrob neu le i hongian dillad a digon o gambrenni i bob person. Mae alcof yn dderbyniol, ond nid yw bachau ar waliau neu y tu ôl i ddrysau yn dderbyniol.
- Digon o le ar gael mewn droriau neu ar silffoedd – o leiaf dwy silff/dau ddrôr.
- Dylid darparu llenni, bleinds neu gaeadau di-draidd o ansawdd ar bob ffenestr, gan gynnwys paneli gwydr ar ddrysau, ffenestri linter a ffenestri to er mwyn sicrhau preifatrwydd a chau golau allan.
- Os oes ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod, dylid ystyried cynnig mwy o breifatrwydd ar ffurf rhwydlen neu fleind.

Systemau Gwresogi, Goleuadau a Dulliau Awyru

Gwresogi

- Dylai system wresogi ddigonol gael ei darparu yn yr ystafell wely am ddim cost ychwanegol.

Goleuadau

- Dylai ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi fod wedi'u goleuo'n dda.
- Lefelau digonol o olau ar gyfer maint yr ystafell.
- Dylid gallu rheoli'r prif oleuadau o'r tu mewn i'r ystafell, wrth ddrws yr ystafell wely.
- Dylai fod cysgodlen neu orchudd dros bob bwlb, oni bai mai bwlb addurnol ydyw.

Awyru

- O leiaf un ffenestr â gwydr clir i ddarparu golau naturiol a lefelau digonol o awyru. Os yw'r ffenestri wedi'u selio, rhaid darparu system aerdymeru.

Lloriau

- Carpedi neu lorïau amgen, e.e. finyl, laminiad pren, estyll gorffenedig, o ansawdd digonol wedi'u gosod yn llawn.

Cyfleusterau a Gwasanaethau Eraill mewn Ystafelloedd Gwely

- Os na ddarperir cyfleusterau gwneud diod yn yr ystafell wely nac ar gais, rhaid i gyfleusterau gwneud diod fod ar gael mewn man cyhoeddus, e.e. peiriannau gwerthu. Gellir codi tâl rhesymol.
- Os darperir cyfleusterau yn yr ystafell wely, dylid sicrhau y gellir defnyddio'r tegell yn ddiogel uwchben uchder y llawr.

Ffôn

- Os darperir ffôn talu ar y safle, rhaid esbonio ei leoliad yn glir.

Amrywiol

- Cyngor wedi'i argraffu ar sut i gael cymorth mewn argyfwng yn ystod y nos, a hynny mewn hysbysiad neu yng ngwybodaeth yr ystafell. Mae'r gofyniad hwn yn ychwanegol at yr hysbysiad cyfarwyddiadau tân.
- Cynhwysydd sbwriel papur (anfflamadwy os caniateir ysmegu).
- Blwch llwch (os caniateir ysmegu yn yr ystafelloedd gwely) neu'r polisi dim ysmegu wedi'i arddangos yn glir.
- Tymbler yfed i bob gwestai yn yr ystafell ymolchi neu'r gegin. Dylai fod yn un gwydr clir, neu'n un tafladwy wedi'i lapio.
- Rheilen dywelion neu gyfarpar cyfatebol.
- Digon o socedi trydan mewn lleoedd cyfleus er mwyn gallu defnyddio'r holl offer trydanol a ddarperir yn ddiogel, e.e. mewn safle addas wrth ymyl drych er mwyn defnyddio sychwr gwallt.
- Haearn a bwrdd smwddio ar gael ar gais neu ar gael o leoliad canolog (yn amodol ar flaendal y gellir ei ad-dalu os yw'n briodol).
- Cyfleusterau golchi dillad ar gael y gellir codi tâl am eu defnyddio ac a all fod mewn lleoliad canolog.

2.7 Toiledau, Ystafelloedd Ymolchi ac Ystafelloedd Cawod

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Cyfleusterau Cyffredinol ac En suite

- Dylai pob ystafell ymolchi ac en suite gael ei glanhau'n ddyddiol ar gyfer ystafelloedd gwely a brecwast â gwasanaeth yn unig. (Ar gyfer ystafelloedd hunanddarpar, rhwng gwesteion neu o leiaf bob wythnos.) Dylid rhoi sylw arbennig i eitemau y bydd gwesteion yn dod i gysylltiad uniongyrchol â nhw, fel tywelion, baddonau, basnau ymolchi, toiledau, lloriau, seddi, a llestri gwydr.
- O leiaf un ystafell â bath neu gawod a basnau ymolchi i bob 12 o westeion.
- O leiaf un toiled i bob chwe gwestai, ar wahân i'r ystafell â bath neu gawod.
- Dylai fod basn ymolchi yn y toiled i ystafelloedd gwely nad oes ganddynt fasnau ymolchi.
- Dylid darparu llenni, bleinds neu gaeadau di-draidd o ansawdd ar bob ffenestr, gan gynnwys paneli gwydr ar ddrysau, ffenestri linter a ffenestri to er mwyn sicrhau preifatrwydd.

DS Er mwyn ennill gradd derfynol o Dair Seren neu uwch, dylai fod un ystafell â

bath neu gawod a basn ymolchi i bob chwe phreswlydd.

Ystafelloedd Ymolchi En suite (lle y cânt eu darparu) – Darnau Gosod a Gosodiadau

Beth yw ystyr 'en suite'?

Mae cyfleuster en suite yn cynnwys bath neu gawod, toiled a basn ymolchi. Mae wedi'i gysylltu ag ystafell wely a gellir mynd ato yn uniongyrchol o'r ystafell honno. Mae'r toiled yn ei ystafell ei hun a gaiff ei hawyru'n briodol. Mae'n dderbyniol i'r basn ymolchi a'r gawod fod yn yr ystafell wely, ar yr amod bod y toiled yn ei ystafell ei hun, y tu mewn i'r ystafell wely. Os yw ciwbicl y gawod yn yr ystafell wely, yna dylid cynnwys dulliau awyru ychwanegol yn unol â hyn. Dylid rhoi gwybod i westeion ar adeg archebu llety os yw'r bath neu'r gawod yn yr ystafell wely.

Nid yw ystafelloedd gwely â chiwbiclau cawod ynddynt yn debygol o gael gradd ansawdd uchel.

DS Mae ystafelloedd ymolchi/ystafelloedd cawod math 'pod' yn dderbyniol ar unrhyw lefel gradd sêr.

- Bath neu gawod. Os darperir cawod, rhaid bod iddi sgrin neu len gawod oni bai ei bod mewn ystafell wlyb.
- Basn ymolchi a drych â golau uwch ei ben neu wrth ei myl. Bydd derbynioldeb hefyd yn dibynnu ar y siâp, safle'r tapiau ac ati ac a yw mewn uned math 'pod'.
- Toiled â chaead (mae ystafelloedd ymolchi math 'pod' wedi'u heithrio am nad yw toiledau â chaead yn ofyniad safonol).
- Teclyn dal papur tŷ bach a phapur tŷ bach.
- Golau â gorchudd drosto.
- Lefelau awyru digonol ar ffurf ffan echdynnu neu ffenestr sy'n agor.
- Mae angen llenni neu fleinds di-draidd ar unrhyw ffenestri clir/didraidd os gellir eu gweld o'r tu allan.
- System wresogi ddigonol (gweler isod)*.
- Bachyn dillad.
- Rheilen dywelion neu gyfarpar cyfatebol (nid yw rheiddiadur yn dderbyniol ond mae cylch/bachyn tywelion neu resel hongian ar reiddiadur yn dderbyniol).
- Gwasgedd dŵr digonol gyda dŵr poeth ar gael ar bob adeg resymol.
- Soced neu addasydd ar gyfer eilliwr trydan ar gael o fewn cyrraedd hawdd i'r drych. Gall fod yn yr ystafell wely, yn yr ystafell ymolchi neu ar gael o fan canolog.
- Clo neu foltt mewnol.

*Os nad oes waliau/fffenestri allanol, gall gwres o'r ystafell wely fod yn ddigonol. Bydd angen system wresogi mewn cyfleusterau en suite sydd â ffenestr allanol. Mae rheilen dywelion wedi'i gwresogi yn dderbyniol.

Ystafelloedd Ymolchi Cyhoeddus (lle y cânt eu darparu) – Darnau Gosod a Gosodiadau

Dylid bodloni'r un gofynion mynediad sylfaenol â'r rhai ar gyfer cyfleusterau en suite, ond hefyd:

- Mae angen system wresogi ym mhob ystafell ymolchi gyhoeddus, oni bai ei bod yn llai na 5.9 medr sgwâr (20 troedfedd sgwâr). Mae ciwbiclau cawod wedi'u heithrio.
- Os oes ffenestri allanol, mae angen system wresogi.
- Clo neu foltt mewnol.

DS Nid yw mynediad i doiledau neu ystafelloedd bath/cawod gwesteion o ystafell wely drwy fannau cyhoeddus, e.e. lolfâ, ystafell fwyta ac ati, yn dderbyniol.

Toiledau Cyhoeddus ar Goridorau Ystafelloedd Gwely – Darnau Gosod a Gosodiadau

- Toiled â chaead.
- Bin â chlawr neu fin agored gyda bagiau cynnyrch mislif.
- Teclyn dal papur tŷ bach a phapur tŷ bach.
- Basn ymolchi gan gynnwys dŵr poeth, sebon/sebon hylif a chyfleusterau sychu dwylo.
- Golau â gorchudd drosto.
- Lefelau awyru digonol ar ffurf ffan echdynnu neu ffenestr sy'n agor.
- Mae angen llenni neu fleinds di-draidd ar unrhyw ffenestri clir/didraidd os gellir eu gweld o'r tu allan.
- Clo neu foltt mewnol.

Basnau Ymolchi mewn Ystafelloedd Gwely

- Rheilen dywelion neu gyfarpar cyfatebol (nid yw rheiddiadur yn dderbyniol ond mae cylch/bachyn tywelion neu resel hongian ar reiddiadur yn dderbyniol).
- Dŵr poeth ar gael 24 awr y dydd.
- Soced neu addasydd ar gyfer eilliwr trydan ar gael o fewn cyrraedd hawdd i'r drych. Gall fod yn yr ystafell wely, yn yr ystafell ymolchi neu ar gael o fan canolog.

Tywelion a Phethau Ymolchi

- Tywel dwylo a bath glân i bob person, sebon newydd ar gyfer pob arhosiad newydd (mae sebon hylif yn dderbyniol).
- Mat bath i bob person.

2.8 Prydau Gwesteion

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Ystafell Frecwast/Ystafell Fwyta

- Os caiff prydau bwyd eu gweini, dylai ystafell fwyta/ardal frecwast fod ar gael.

Brecwast (os caiff ei ddarparu fel rhan o becyn)

- Os oes brecwast ar gael i'r gwesteion, gall fod yn frecwast cyfandirol a/neu'n frecwast wedi'i bacio. Os nad oes brecwast wedi'i goginio ar gael neu os yw wedi'i bacio, rhaid rhoi gwybod am hyn yn y llyfryn neu ar adeg archebu llety.
- Dylid arddangos y dewis o fwydydd a'u costau yn glir.
- Dylai amseroedd brecwast gael eu nodi'n glir ond gall prydau i grwpiau gael eu gweini ar amser penodol.

Cinio a Phryd Nos (lle y cânt eu darparu)

- Dylai prif gyrsiau gynnwys seigiau poeth ac opsiwn llysieuol.
- Gall prydau i grwpiau gael eu gweini ar amser penodol ond, ar gyfer pob gwestai arall, dylai amser cinio/pryd nos ac amseroedd agor y cyfleuster bwyta gael eu nodi'n glir.

2.9 Mannau Cyhoeddus

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Cyffredinol

- Lefelau digonol o oleuadau sydd at ddibenion diogelwch a chysur mewn mannau cyhoeddus, gan gynnwys digon o olau ar risiau a phennau grisiau yn y nos. Mae'n dderbyniol defnyddio switsh isgoch/wedi'i amseru.
- Dylai coridorau a grisiau fod mewn cyflwr da ac yn rhydd o rwystrau.
- Lefelau digonol o wres ym mhob man cyhoeddus.
- Toiledau cyhoeddus mewn cyflwr da ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd bob dydd.

Toiledau Cyhoeddus

Dylai pob toiled gynnwys:

- Dulliau awyru digonol.
- Toiled â chaead.
- Golau â gorchudd drosto.
- Papur tŷ bach a phapur sbâr.
- Bin gwaredu cynhyrchion mislif.
- Basn ymolchi gyda sebon/sebon hylif.
- Cyfleusterau sychu dwylo digonol.
- Clo neu follt mewnol ar gyfer ciwbiclau toiled.

2.10 Gofynion Cyffredinol

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Diogelwch

- Dylai'r fynedfa fod wedi'i nodi'n glir.
- Dylid cynnal lefel uchel o ddiogelwch cyffredinol, gan gynnwys gwybodaeth am weithdrefnau mewn argyfwng yn cael ei harddangos yn yr ystafelloedd gwely.
- Dylai mesurau digonol fod ar waith i ddiogelu'r gwesteion a'u heiddo. Dylai fod ffordd o gloi drysau ystafelloedd gwely o'r tu mewn a'r tu allan a dylai allwedd fod ar gael.

Golwg Allanol

- Rhaid cadw adeiladau a'u darnau gosod, dodrefn meddal, gosodiadau a décor allanol a mewnol yn lân ac mewn cyflwr da a rhaid iddynt fod yn addas i'r diben a fwriedir.

Tir a Gerddi

- Dylai gerddi a/neu fannau agored sydd o fewn cyrraedd gwesteion gael eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Dylai llwybrau neu dramwyfeydd i bob ardal fod mewn cyflwr da, ag arwyneb da ac wedi'u goleuo'n ddigonol.

Parcio (lle y bo'n berthnasol)

- Dylai'r maes parcio, os oes un ar gael, fod wedi'i oleuo'n ddigonol i sicrhau diogelwch y gwesteion.
- Os nad oes lle parcio ar gael/yn cael ei ddarparu, neu os yw'n gyfleuster ychwanegol y codir tâl amdano, dylid nodi hyn yn y llyfryn/ar y wefan a rhaid rhoi gwybod i westeion am hyn ar adeg archebu llety.

Blociau Llety

- Os oes gan sefydliad anecs, caiff y cyfleusterau a ddarperir yn yr anecs eu hystyried yn y maes asesu perthnasol, e.e. ystafell gemau mewn mannau cyhoeddus a chyfleusterau cysgu mewn ystafelloedd gwely.

Cyfleusterau Ychwanegol

- Cyfleusterau y gellir eu darparu fel rhan o'r pecyn llety yw'r rhain. Mae'r gofynion hyn yn ddewisol ond, os caiff y cyfleusterau hyn eu darparu, caiff eu hansawdd, cyflwyniad a hwylustod eu hystyried wrth asesu'r sgôr ansawdd.
- Os oes gan y sefydliad gyfleusterau awyr agored ychwanegol, e.e. cwrt tennis, caiff y rhain eu hystyried yn y rhan hon.
- Dylai fod arwyddion i'r cyfleusterau.

2.11 Cegin (lle y caiff unedau eu marchnata fel rhai hunangynhwysol)

Gofynion Mynediad Sylfaenol

Cyffredinol

- Arwyddion dim ysmegu clir.
- Dylai fod stof lân sy'n gweithio'n iawn gyda ffwrn, gril ac o leiaf bedwar cylch coginio y gellir eu defnyddio ar yr un pryd â'r ffwrn neu'r gril.
- Dylid darparu ffwrn ficro-don yn ogystal â stof.
- Dylai fod oergell lân sy'n gweithio'n iawn, gydag adran gwneud iâ (oni ddarperir rhewgell hefyd).
- Sinc â bwrdd draenio, rac sychu llestri, cyflenwad dŵr poeth a dŵr yfed oer.
- O leiaf un arwyneb gwaith hylan.
- Ffordd o ferwi dŵr, e.e. tegell ac ati.
- Ffenestr sy'n agor neu system awyru a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
- Dylid darparu bin sbwriel â chlawr.
- Dylid darparu cyflenwad cychwynnol o hylif golchi llestri a chadachau llestri neu frwsh golchi llestri.
- Dylai blanced dân fod o fewn cyrraedd hawdd. Yn ddelfrydol, dylai fod rhwng y stof a'r drws, ac wedi'i osod ar y wal. Nid yw'n dderbyniol ei storio mewn cwpwrdd neu uwchben y stof. Gellid ei chadw y tu allan i'r gegin, ar yr amod bod modd cael gafael arni'n gyflym ac yn hawdd.
- Mae ystafell fwyta/cegin hunanddarpar wedi'u cyfuno yn dderbyniol.
- Lle storio sy'n addas i fwyd.
- Dylid darparu digon o le i storio llestri, cyllyll a ffyrc, offer cegin ac offer glanhau.
- Cegin sy'n cynnwys digon o offer coginio, llestri a thymbleri ar gyfer nifer y gwesteion a all aros yn y llety.

Goleuadau

- Rhaid i geginau fod wedi'u goleuo'n ddigonol a rhaid bod cysgodlenni ar bob golau, neu rhaid iddynt fod wedi'u diogelu'n addas.

Lloriau

- Rhaid bod gan bob cegin orffeniadau neu orchuddion llawr addas.

Rhestr Eitemau Cegin

Dylai'r rhain gael eu darparu i bob person:

- Powlen – grawnfwyd neu bwddin
- Fforc

- Cyllell
- Mwg
- Plât (mawr a bach)
- Llwy (llwy de a llwy bwddin)
- Tymbler

Dylid ystyried y rhestr sylfaenol hon o offer a'u darparu fel y bo'n briodol, ym mhob cegin:

- Tun pobi
- Cyfleusterau sylfaenol ar gyfer sychu dillad
- Cynhwysydd storio
- Cyllell fara
- Bwrdd torri
- Cafetière/peiriant coffi
- Cyfryngau glanhau/tabledi/hylif/powdr peiriant golchi llestri (os darperir peiriant golchi llestri)
- Colandr
- Pupur a halen
- Tynnwr corcyn ac agorwr poteli
- Cadachau llestri
- Padell llwch a brwsh
- Sleis bysgod
- Cadach/mop llawr a bwced
- Padell ffrio
- Gratur
- Llestr gwneud iâ
- Tegell – trydan awtomatig
- Siswrn Cegin
- Lletwad
- Jwg mesur
- Jwg llaeth
- Maneg ffwrn
- Stwnsiwr tatws
- Piliwr tatws
- Sosbenni (mawr, canolig, bach)
- Powlen siwgr
- Lliain bwrdd/matiau bwrdd
- Llwy fwrdd x 2
- Tebot
- Llieiniau sychu llestri
- Dyfais agor tun
- Tostiwr
- Hambwrdd
- Dysgl lysiau x 2
- Cyllell lysiau
- Powlen/brwsh golchi llestri
- Hylif golchi llestri (ecogyfeillgar)
- Jwg dŵr
- Gwydrau gwin
- Llwy bren

3.0 Canllawiau Ansawdd ar gyfer Campws

3.1 Dangosyddion Ansawdd

Rhoddir enghreifftiau o'r lefel ansawdd ddisgwyliedig er mwyn ennill gradd o Un i Bum Seren ar gyfer pob maes asesu. Defnyddir ymadroddion fel 'derbyniol', 'da', a 'da iawn' i ddynodi lefelau ansawdd esgynnol mewn ffordd gyffredinol yn unig. Maent yn amhenodol yn fwriadol am ein bod yn cydnabod yr amrywiaeth eang o elfennau ansawdd y gellir eu cynnwys. Mae'r Dangosyddion Ansawdd yn cynrychioli disgwyliadau nodweddiadol o ran cyflwr ac ansawdd cynhenid, ac nid ydynt yn ddiamedod nac yn hollgynhwysfawr.

3.2 Y Tu Allan

Adeiladau – Golwg a Chyflwr Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Mae tu allan yr adeiladau yn lân ac mewn cyflwr da.
- Caiff yr eiddo ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan.

Dwy Seren

- Taclusrwydd cyffredinol, gan gynnwys bocsys ffenestri, basgedi crog, tybiau ac ati lle bo hynny'n briodol.
- Olion heneiddio a diffygion wedi'u cyfyngu i nifer bach o ardaloedd.
- Tai allan yn edrych yn daclus.

Tair Seren

- Yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, rhywfaint o hindreuliad naturiol i'w weld o bosibl.
- Defnydd deniadol o focsys ffenestri, basgedi crog a thybiau lle bo hynny'n briodol.
- Mae unrhyw arwyddion a gaiff eu harddangos mewn cyflwr da.

Pedair Seren

- Gwaith cerrig a gwaith paent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ond mae rhywfaint o hindreuliad naturiol yn dderbyniol.

Pum Seren

- Safonau ardderchog o ran gwaith cynnal a chadw allanol a gwaith paent yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gan gynnwys tai allan ac arwyddion, gan ystyried oedran yr adeilad.
- Dim staeniau na gwaith cerrig hyll ar adeiladau hŷn.

- Nodweddion fel tybiau blodau a bocsys ffenestri wedi'u hychwanegu lle y tybiwyd bod hynny'n briodol.
- Wedi'u goleuo'n dda ac arwyddion clir ar eu cyfer.

Tir/Gerddi/Ffryntiad – Taclusrwydd a Chyflwr Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Golwg gyntaf ddigonol, e.e. biniau sbwriel a manau storio yn cael eu cadw'n daclus ac o'r golwg.
- Llwybrau taclus.
- Caiff rhodfeydd eu cynnal a'u cadw'n ddigonol.

Dwy Seren

- Caiff biniau sbwriel a manau storio eu cadw o'r golwg.
- Tystiolaeth o fwy o ymdrech i wneud gerddi yn fwy deniadol, yn daclus ac yn rhydd o sbwriel.
- Llwybrau heb beryglon baglu.

Tair Seren

- Caiff y tir, rhodfeydd, llwybrau ac ati eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Goleuadau ac arwyddion effeithiol lle bo angen, e.e. rhodfa hir.
- Mynediad hawdd. Arwyneb wedi'u gynnal a'i gadw'n dda.

Pedair Seren

- Nid yw ardal y biniau yn weladwy ac, yn ddelfrydol, mae o'r golwg yn llwyr.
- Safonau cynnal a chadw uchel yn yr ardd. Gwelyau blodau, llwybrau a gwrychoedd yn daclus ar y cyfan a phob coeden a llwyn yn daclus.
- Tystiolaeth o rywfaint o sylw i fanylder, e.e. rhodfeydd ag arwyneb da heb ddim tyllau ynddynt, a llwybrau llydan a gwastad.

Pum Seren

- Borderi neu lwyni deniadol a thaclus a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda, llwybrau ac ymylon taclus, lawntiau mewn cyflwr da ac wedi'u torri'n dda, gwrychoedd wedi'u tocio ac ymdrech gyffredinol i'w cadw'n daclus drwy gydol y flwyddyn.
- Goleuadau ac arwyddion ardderchog mewn manau da.

Mannau Parcio (Ile y cânt eu darparu) – Ansawdd a Chyflwr

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Mannau parcio gweddol hawdd a diogel wedi'u cynnal a'u cadw'n ddiogel.
- Gallai manau parcio llai ffurfiol fod yn briodol.

Dwy Seren

- Rhywfaint o ymdrech i reoli trefniadau parcio.

Tair Seren

- Mynediad da a hawdd gydag arwyddion fel y bo'n briodol.
- Goleuadau digonol.
- Trefniadau parcio mwy strwythuredig i sefydliadau sy'n derbyn pobl nad ydynt yn breswylwyr.

Pedair Seren

- Ardal neu fannau parcio wedi'u diffinio'n glir. Mae arwyddion yn atal dryswch i westeion pan fyddant yn cyrraedd. Gall hyn fod yn anffurfiol.

Pum Seren

- Digonedd o fannau parcio ag arwyddion clir.
- Goleuadau da mewn manau da.
- Caiff diogelwch ceir y gwesteion ei ystyried.
- Caiff llwybrau a stepiau eu goleuo'n dda yn y nos.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Tir, gerddi, ffryntiad a manau parcio

Dylid cadw llwybrau'n glir o rwbel, mwsogl, iâ a dail a sicrhau bod arwynebau llwybrau yn gadarn ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Dylai pob ffordd fod yn rhydd o rwystrau oni bai eu bod wedi'u gosod yn sownd. Dylid arddangos arwyddion clir o'r prif ffyrdd i'r campws yn dangos ble mae'r manau parcio a'r dderbynfa. Dylid tynnu sylw at dwmpathau ffyrdd ac, yn y gaeaf, sicrhau bod graean/halen ar gael i drin manau peryglus.

Dylid darparu manau dynodedig i bobl anabl lle bo modd, ar arwyneb cadarn a gwastad a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda sy'n agos at y brif fynedfa/y dderbynfa a hefyd at lety'r person. Fel arall, dylid nodi man gollwng a modd i'r gwesteion gysylltu â chi i roi gwybod eu bod wedi cyrraedd ac a oes angen cymorth arnynt. Gall rhai pobl fod yn ddwys-fyddar felly cofiwch na fyddant yn gallu eich clywed yn ymateb o bosibl. Dylech ystyried defnyddio ffordd weledol

o gydnabod eich bod wedi eu clywed, fel fflachio tortsh.

Dylai'r llwybr o'r lle parcio i'r llety neu'r dderbynfa, os oes un, fod o leiaf 180cm o led ac wedi'i oleuo'n dda.

Dylech gynnig cludiant cwrteisi o'r dderbynfa i flociau llety "pell" i bobl sy'n gofyn am gymorth. Dylid darparu lle o fewn tir yr adeilad i gŵn cymorth redeg yn rhydd.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Ar gyfer tir, gerddi a ffryntiadau, dylid ystyried defnyddio deunyddiau sy'n gweddu i'r amgylchedd lleol a nodweddion ffisegol y ddaearyddiaeth a'r ddaearog leol.

3.3 Glendid

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Mae'r holl arwynebau yn lân, ac nid oes unrhyw lwch.
- Caiff yr holl ystafelloedd eu hwfro a chaiff y lloriau eu glanhau bob dydd.
- Caiff manau cyhoeddus/cymunedol eu cadw'n daclus.

Dwy Seren

- Safon eithaf da ar y cyfan, ond mae'n bosibl y caiff rhai manau eu hesgeuluso.

Tair Seren

- Rhywfaint o dystiolaeth o sylw i fanylder, yn enwedig tynnu llwch oddi ar lefelau uchel ac isel ac o fannau y bydd y gwesteion yn dod i gysylltiad uniongyrchol â nhw, e.e. dillad gwely a llestri, toiledau a baddonau.
- Caiff dodrefn meddal a charpedi eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Mae pob ardal yn rhydd o annibendod.
- Mae pob ardal yn aroglu'n ffres ac yn lân.

Pedair Seren

- Arwynebau glân newydd eu llathru. Caiff dodrefn meddal a charpedi eu glanhau'n drylwyr yn rheolaidd.
- Mwy o sylw i fanylder, gyda safonau cyffredinol uchel.

Pum Seren

- Yn amlwg fel pin mewn papur.
- Arwynebau'n disgleirio. Dim staeniau na marciau. Tystiolaeth o lanhau trylwyr.
- Dodrefn meddal a charpedi cwbl lân.
- Dillad gwely yn amlwg yn ffres ac yn lân.

3.4 Archebu Llety a Gwybodaeth

Ymholiadau dros y Ffôn

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Ateb y ffôn drwy roi enw'r sefydliad a chymryd rhai o fanylion y gwestai, ond dim llawer.

Dwy Seren

- Ffordd gymwys o siarad â gwesteion dros y ffôn.

Tair Seren

- Paroddrwydd i helpu a ffordd drefnus o ddelio ag ymholiadau gan westeion.

Pedair Seren

- Staff cymwys ac effeithlon yn delio ag ymholiadau mewn ffordd broffesiynol a chyson.

Pum Seren

- Fel arfer, nid yw'r ffôn yn canu mwy na phum gwaith cyn i rywun ateb.

Ansawdd y Wybodaeth ar y Wefan ac yn y Llyfryn

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Gall y llyfryn a/neu'r wefan fod yn syml a chynnwys gwybodaeth sylfaenol.
- Mae map/lloliad sylfaenol wedi'i gynnwys.

Dwy Seren

- Gall y llyfryn a/neu'r wefan gynnwys mwy o fanylion.

Tair Seren

- Gall nifer cyfyngedig o luniau fod yn y llyfryn/ar y wefan.

Pedair Seren

- Byddai'r llyfryn a/neu'r wefan yn cynnwys ffotograffau lliw a manylion o bethau i'w gwneud yn yr ardal.

Pum Seren

- Lluniwyd y llyfryn a/neu'r wefan i safon broffesiynol uchel, gyda llawer o fanylion am y llety a'r cyfleusterau ar y safle a'r pethau i'w gweld a'u gwneud yn yr ardal leol.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Mae'n bwysig cofio ei bod yn well gan bobl ffyrdd gwahanol o gyfathrebu ac nad oes gan bob darpar gwsmer gysylltiad â'r rhyngwyd. Dylech gynnig dewis o ddulliau archebu i'ch

gwesteion, e.e. dros y ffôn neu drwy lythyr, e-bost, Type Talk a Minicom, ac mae bob amser yn arfer dda gofyn i bob ymwelydd a oes ganddo unrhyw ofynion mynediad. Mae hyn yn bwysicach fyth yn yr oes sydd ohoni gan fod cyfleusterau archebu ar-lein yn golygu y gellir archebu llety heb unrhyw gyswllt llafar rhyngoch chi a'r gwestai. Bydd cwblhau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd yn helpu i feithrin agwedd fwy ymatebol tuag at anghenion canfyddedig a gwirioneddol gwestai.

Dylid rhoi gwybodaeth am wasanaethau ychwanegol fel glanhau dyddiol, prydau bwyd, gwasanaethau ysgrifenyddol a golchi/sychlanhau dillad mewn amrywiaeth o fformatau yn unol â dewisiadau gwahanol bobl, e.e. print mawr, Braille, ffotograffau, ffeiliau MP3 i'w lawrlwytho. Hefyd, pan fyddwch yn gwella'r wefan neu'n comisiynu un newydd, sicrhewch fod eich dylunwyr yn gyfarwydd â chanllawiau hygyrchedd ar y we – <https://www.w3.org>

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Dylech ystyried llunio eich polisi rheoli amgylcheddol eich hun, yn nodi'r camau rheoli amgylcheddol a chynaliadwy a gymerwyd; ymuno â chynllun rheoli twristiaeth werdd. Gallech ymuno â chynllun ad-dalu gwirfoddol i ymwelwyr, lle y bydd y coleg yn casglu arian ac yn ei roi i elusen leol, neu gallech sefydlu cynllun o'r fath eich hun.

3.5 Ansawdd Cyflwyno Gwybodaeth i Westeion a Thwristiaid

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Ychydig bach o wybodaeth am gyfleusterau'r llety/safle wedi'i chynnwys ar hysbysfwrdd mewn ardal gymunedol.
- Gall fod gwybodaeth gyfyngedig i dwristiaid ar hysbysfwrdd mewn ardal gymunedol neu ar gael o'r dderbynfa ar gais.

Dwy Seren

- Mwy o wybodaeth ar gael yn hawdd.

Tair Seren

- Hawdd cael gafael ar wybodaeth i dwristiaid sydd ar gael i westeion ei darllen. Gallai fod ar resel daflenni neu mewn man canolog.

Pedair Seren

- Dylai gwybodaeth helaeth i dwristiaid fod ar gael yn hawdd i westeion bori drwyddi.

- Dylai gwybodaeth am gyfleusterau'r llety a'r safle fod yn glir ac wedi'i chyflwyno'n dda, ac mae'n debygol o fod ym mhob ystafell wely.

Pum Seren

- Ffolder wybodaeth wedi'i chyflwyno'n dda ym mhob ystafell, yn cynnwys gwybodaeth glir a threfnus am y safle a'r llety.
- Gwybodaeth i dwristiaid wedi'i hategu gan argymhellion personol a lleol, e.e. lleoedd i fwyta, siopa ac ymweld â nhw.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Fel rhan o'r Wybodaeth i Westeion, dylid darparu copïau o gynllun y campws mewn amrywiaeth o fformatau, neu sicrhau eu bod ar gael – e.e. print mawr, Braille, sain.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Y wybodaeth i dwristiaid yw eich cyfle i restru'r manau cyfagos sy'n gwerthu bwyd, diod a chreffft o'r ardal leol, ynghyd â gwybodaeth am y cynhyrchwyr lleol hynny. Gallech gynnig awgrymiadau ar gyfer diwrnodau allan heb ddefnyddio car, a rhoi manylion amserlenni trafndiaeth gyhoeddus a rhifau cyswllt i hyrwyddo hyn. Rhowch wybodaeth am lwybrau cerdded a beicio a manylion unrhyw gyfleusterau llogi beiciau lleol.

3.6 Ystafelloedd Gwely – Ansawdd a Chyflwr

Addurno

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Gwaith addurno ymarferol heb fawr ddim yn cyfateb.

Dwy Seren

- Gall y gwaith addurno fod yn hen, ond heb ei ddifrodi na'i grafu'n ormodol.

Tair Seren

- Gwaith addurno sy'n cyfateb.
- Waliau a gwaith paent wedi'u gorffen yn dda.

Pedair Seren

- Gwaith addurno o safon dda iawn.
- Rhywfaint o ymdrech i guddio pibellau a gwifrau sydd wedi'u gosod ar arwynebau.

Pum Seren

- Gwaith addurno mewn cyflwr ardderchog.
- Gall fod rhywfaint o luniau i'w gweld.

3.7 Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Darpariaeth gynnil ond digonol o gelfi, dodrefn meddal a gosodiadau. Gall fod rhywfaint o ddifrod i'w weld, ond mae modd defnyddio'r holl eitemau.
- Gall y llenni fod heb leinin, ond dylent gwrdd yn y canol. Dylai'r bleinds agor a chau yn rhwydd.
- Gallai'r gosodiadau golau a gwresogi fod yn brin o ansawdd cynhenid.
- Seddi addas mewn cyflwr derbyniol.

Dwy Seren

- Celfi/gosodiadau mewn cyflwr eithaf da heb fawr ddim traul i'w weld. Ansawdd 'domestig' o bosibl.
- Gosodiadau golau a gwresogi o safon eithaf da.

Tair Seren

- Digonedd o gelfi ym mhob ystafell. Gall fod o ansawdd gweddol a/neu'n gelfi fflatpac.
- Celfi a gosodiadau o ansawdd da, mewn cyflwr da.
- Paru da.
- Dylai'r llenni fod yn llawn a chadw gwres i mewn/golau allan yn effeithiol.
- Mae faint o gelfi sydd yn gymesur â'r lle sydd ar gael.

Pedair Seren

- Celfi o ansawdd, nid o reidrwydd yn newydd, ond yn cynnig cryn dipyn o gysur a lle.
- Gosodiadau golau a gwresogi o ansawdd da iawn ac mewn cyflwr da iawn.
- Mae'n debygol bod y seddi'n glustogog.

Pum Seren

- Ansawdd ardderchog, wedi'u saernio'n gadarn, heb fawr ddim olion traul.
- Gorchuddion ffenestri sydd wedi'u gosod yn dda ac sy'n ddigon llydan.
- Gosodiadau golau a gwresogi o safon uchel.
- Mae'n debygol bod drych hyd llawn wedi'i gynnwys.

3.8 Lloriau

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Mae'r lloriau'n ddigon cyfforddus. Gall fod rhai olion traul i'w gweld.
- Heb eu gosod yn broffesiynol o reidrwydd.

Dwy Seren

- Lloriau o safon eithaf da, ond gall fod llawer o ffeibrau artiffisial yn y carpedi.

Tair Seren

- Lloriau o ansawdd da sydd wedi'u gosod yn dda, ac sydd mewn cyflwr da, sy'n gyfforddus dan draed.
- Lloriau pren mewn cyflwr da.
- Rhywfaint o haen waelodol o dan y carpedi.

Pedair Seren

- Lloriau o safon uchel, ond nid o reidrwydd yn newydd a gall fod olion traul. Neu loriau o safon is ond mewn cyflwr fel newydd. Wedi'u gosod yn broffesiynol fel arfer.

Pum Seren

- Carpedi o safon uchel wedi'u gosod yn broffesiynol gyda haen waelodol sylweddol.
- Estyll llathredig neu laminad o safon uchel a rygiau.

3.9 Gwelyau a Dillad Gwely

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Ansawdd derbyniol, ond gall y matresi fod yn denau a'r gwaelodion yn fas. Pennau gwelyau neu eitemau cyfatebol glân a chadarn.
- Gwelyau taclus sydd â chynfasau lliain glân a gorchuddion gwely mewn cyflwr da.
- Digion o ddillad gwely, gan gynnwys digon o flancedi.

Dwy Seren

- Gwelyau a dillad gwely o ansawdd eithaf da.
- Gwelyau a matresi wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Gall y dillad gwely fod wedi colli eu lliw, ond gwneir rhywfaint o ymdrech iddynt gyfateb.

Tair Seren

- Gwelyau cyfforddus o ansawdd da. Matresi cydnerth a gwaelodion cadarn.
- Gall fframiau'r gwelyau fod yn fathau hŷn, ond mewn cyflwr da.
- Gwelyau taclus â chynfasau lliain a dillad gwely sydd i gyd mewn cyflwr da. Dylai fod digonedd o obenyddion ac mae'n debygol y bydd amddiffynwyr matresi'n cael eu defnyddio.

Pedair Seren

- Matresi da iawn a gwaelodion cadarn. Mae'r pennau gwelyau yn eithaf cyfforddus, os cânt eu darparu.

- Dillad gwely o ansawdd da iawn sy'n cyfateb i thema'r gwaith addurno o bosibl.

Pum Seren

- Gwelyau maint llawn o ansawdd ardderchog.
- Duvets neu flancedi trwm o ansawdd ardderchog, gyda rhai sbâr ar gael.
- Dylai unrhyw ddillad gwely ychwanegol a ddarperir yn yr ystafelloedd gwely fod wedi'u lapio.

3.10 Goleuadau/Systemau Gwresogi/Dulliau Awyru – Ansawdd y Ddarpariaeth

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Lefelau digonol o oleuadau sydd wedi'u lleoli'n briodol. Digion o oleuadau ar gyfer defnydd ymarferol.
- Lefelau gwresogi digonol a ddylai fod yn effeithiol ar gyfer yr ystafell gyfan yn ystod y cyfnodau oeraf. Dylai rhyw fath o ddyfais gwresogi annibynnol fod ar gael yn ystod y misoedd oeraf os nad oes system wresogi sefydlog yn yr ystafelloedd gwely.
- Awyr iach ar gael drwy ffenestr sy'n agor, neu system cyfnewid aer.

Dwy Seren

- Lefelau goleuo eithaf da – gall hyn fod drwy brif olau ac un golau arall, â watedd uwch na'r isafswm o 140w.
- Gallai'r system wresogi fod yn ddyfais annibynnol a gall fod yn awtomatig neu gael ei rheoli â thermostat.
- Gall fod cymysgedd o systemau gwresogi – rhai sefydlog a rhai symudol.
- Cynhelir tymheredd cefndir da, a gellir ei godi pan fo angen.

Tair Seren

- Lefelau goleuo da y gellir eu rheoli ym mhob ystafell wely.
- Mae'n debygol y bydd mwy nag un ffynhonnell o olau. Digionedd o olau naturiol.
- Lefelau effeithiol o wres sy'n darparu tymheredd a gynhelir.
- System wresogi sefydlog, awtomatig sydd wedi'i gosod yn gywir ac y gellir ei rheoli â thermostat.

Pedair Seren

- Lefelau da iawn o olau a rheolyddion hawdd eu cyrraedd. Gellir defnyddio gwahanol fathau o oleuadau e.e. goleuadau wal a lampau.

- System wresogi sefydlog, awtomatig sydd wedi'i gosod yn gywir ac y gellir ei rheoli â thermostat.

Pum Seren

- Goleuadau o safon uchel mewn mannau da, gan oleuo'r lle yn ardderchog at ddibenion amrywiol e.e. darllen ac wrth y bwrdd gwisgo/desg ysgrifennu.
- Byddai prif olau y gellir ei reoli o'r drws a'r gwely yn ddymunol.
- Gall y gwestai reoli'r lefelau gwres ar unrhyw adeg o'r dydd a'r nos. Efallai na fydd rhai mathau hŷn o wresogyddion stôr yn bodloni'r gofyniad hwn.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Byddai o les i bawb petai arwynebau agored cyfarpar gwresogi y tu ôl i sgrin er mwyn amddiffyn preswylwyr rhag llosgi, a dylai rheiddiaduron neu ddyfeisiau gwresogi eraill gael eu lleoli mewn mannau lle nad ydynt yn cyfyngu ar y lle sydd ar gael wrth gario bagiau neu ddefnyddio ffrâm gerdded neu gadair olwyn.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Gall deunydd inswleiddio gwell a mwy o ddefnydd o systemau gwresogi y gellir eu rheoli â thermostat ac sy'n gwresogi ardaloedd penodol helpu i arbed ynni, a dylid ceisio defnyddio cymaint o olau naturiol â phosibl.

3.11 Lle, Cysur a Hwylustod

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Dylid gallu agor droriau a drysau led y pen, heb orfod symud celfi eraill.
- Mae'r ystafell yn ddigon mawr i gynnwys yr holl gelfi angenrheidiol, ond prin y cafodd y cynllun ei ystyried.
- Mae lle rhesymol i symud yn ddirwystr.
- Inswleiddio sŵn rhesymol, heb fawr ddim sŵn yn amharu ar westeion o bibellau dŵr, coridorau ac ati.

Dwy Seren

- Bydd angen i ystafelloedd fod yn fwy o faint gyda chryn dipyn mwy o le defnyddiadwy o gwmpas celfi a gosodiadau.
- Ystafelloedd taclus.
- Seddi boddhaol ar gyfer y math o lety.

DS Os mai dim ond o un ochr y gellir mynd i mewn i welyau dwbl mewn ystafelloedd i ddau

westai, Dwy Seren yw'r radd uchaf y gellir ei rhoi.

Tair Seren

- Digon o le i symud o gwmpas yn ddirwystr a lefel dda o gysur.
- Holl gyfleusterau'r ystafell wely yn hawdd eu defnyddio.
- Celfi sydd wedi'u lleoli'n gyfleus at ddefnydd ymarferol.
- Os darperir teledu, gellir ei weld o'r ardal eistedd neu'r gwely.
- Digon o le i fynd i mewn i wely dwbl o'r ddwy ochr.
- Cadeiriau ymarferol a chyfforddus.
- Digonedd o socedi trydan ar gyfer yr holl offer a ddarperir.

Pedair Seren

- Cynllun y celfi wedi'i ystyried yn ofalus er mwyn gwneud y gorau o'r lle gwag sydd ar gael. Gallai'r ystafelloedd fod yn llai, ond mae'r gwaith cynllunio gofalus yn golygu bod y lle gwag yr un mor ddefnyddiadwy.
- Digonedd o le i fynd i mewn i wely dwbl o'r ddwy ochr.
- Posibilrwydd o ddarparu un gadair i bob gwestai.
- Socedi sbâr sy'n hawdd eu cyrraedd ac mewn lleoliad addas i bob defnydd.
- Fawr ddim sŵn.

Pum Seren

- Ystafell fawr, wedi'i chynllunio'n dda gyda celfi mewn lleoedd addas a chyfleus sy'n hynod gyfforddus. Man i gadw bagiau heb wneud yr ystafell yn anniben a bod yn y ffordd.
- Defnydd hawdd a chyfleus o gyfleusterau, e.e. defnyddio arwynebau heb symud yr hambwrdd te na'r teledu (lle y cânt eu darparu), mynediad at socedi trydan ac ati.
- Cadeiriau cyfforddus a hawdd eu defnyddio.
- Digon o le i fynd i mewn i wely dwbl o'r ddwy ochr.
- Dim sŵn yn amharu ar westeion.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Dylai ystafelloedd gwely fod ar gael ar y llawr gwaelod lle bo modd.

Mae celfi sy'n sefyll ar eu pen eu hunain, a gwelyau 'Zip and Link' lle bo modd, yn fodd i drefnu'r ystafell mewn ffordd fwy hyblyg, sy'n angenrheidiol weithiau er mwyn darparu ar gyfer gofalwr sy'n teithio gyda pherson anabl neu er mwyn i berson â nam ar ei olwg allu symud o gwmpas yr ystafell.

Dylai fod blociau ar gael er mwyn gallu addasu uchder gwelyau.

Dylid sicrhau bod digon o le yn yr ystafell wely i gerdded o gwmpas heb daro yn erbyn celfi. A yw'r ffenestri a'r llenni o fewn cyrraedd eich gwsteion, ac a yw'n hawdd eu hagor a'u cau?

Dylai fod modd addasu lefelau'r goleuadau gan ddefnyddio switsh pylu a/neu dylai lampau ychwanegol fod ar gael ar gyfer bwrdd erchwyn gwely/bwrdd gwisgo.

Os oes mynediad ar gael i ddefnyddiwr cadair olwyn, dylid caniatáu cylch troi o 120cm a darparu cawod/bath ar lefel mynediad gyda theclyn codi neu sedd.

I gynorthwyo pobl â nam ar eu golwg, dylech ystyried cael fframiau drysau mewn lliw sy'n cyferbynnu â lliw'r wal. Dylid osgoi gorffeniadau sgleiniog iawn.

Os darperir gwelyau bync, dylid caniatáu o leiaf 120cm rhwng rhesi.

Dylid sicrhau bod pob gwestai yn gwybod sut i arddangos isdeitlau ar y teledu gan ddefnyddio'r teclyn rheoli o bell. Bydd hyn o fudd i westeion â nam ar eu clyw a hefyd i westeion sy'n siarad ieithoedd tramor.

3.12 Ystafelloedd Ymolchi/ Cyfleusterau En suite/Toiledau – Ansawdd a Chyflwr

Darpariaeth En suite

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Dim cyfleusterau en suite na chyfleusterau preifat o bosibl.

Dwy Seren

- Cyfleusterau en suite neu gyfleusterau preifat mewn rhai o'r ystafelloedd gwely.

Tair Seren

- Mae'n debygol y bydd cyfleusterau en suite neu gyfleusterau preifat mewn o leiaf 40% o'r ystafelloedd gwely.

Pedair Seren

- Mae'n debygol y bydd cyfleusterau en suite neu gyfleusterau preifat mewn o leiaf 60% o'r ystafelloedd gwely.

Pum Seren

- Mae'n debygol y bydd cyfleusterau en suite neu gyfleusterau preifat mewn o leiaf 80% o'r ystafelloedd gwely.

3.13 Addurno

Cydnabyddir y bydd llawer o weithredwyr yn defnyddio ystafelloedd ymolchi math "pod" sydd wedi'u mowldio mewn resin/plastig fel un darn. Mae'r rhain yn dderbyniol, a lle y cyfeirir at waith addurno a theilsio yn yr adran hon, mae hyn hefyd yn cynnwys nenfwd/waliau integrol y mathau hyn o unedau.

Darpariaeth En suite

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Gwaith addurno mewn cyflwr derbyniol, rhai manau'n hen neu wedi'u difrodi gyda marciau neu olion traul i'w gweld, rhywfaint o baent yn pilio ond mewn cyflwr da ar y cyfan.
- Prin yw unrhyw graciau neu ddifrod i'r teils neu'r gorffeniad.
- Mae'r seliwr a'r growt wedi'u hafliwio.

Dwy Seren

- Ansawdd a chyflwr y gwaith addurno yn eithaf da, ond gall fod olion traul i'w gweld.

Tair Seren

- Gwaith addurno o ansawdd da heb fawr ddim traul. Gall fod yn ymarferol, ond yn edrych yn ffres ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Bydd y teils i gyd mewn cyflwr da, er na fyddant fel newydd o bosibl.
- Mae'r seliwr a'r growt wedi'u hafliwio i raddau.

Pedair Seren

- Gwaith addurno o safon dda iawn. Gall fod yn orffeniad cymharol syml, e.e. paent emylsiwn neu baent ystafell ymolchi, ond mae mewn cyflwr ardderchog ac yn cael ei gynnal a'i gadw felly.
- Gall y teils fod yn helaeth ac i safon dda iawn yn gyson. Caiff safonau eu cynnal ym mhob rhan o'r ystafell ymolchi heb fawr ddim marciau na difrod i'w gweld, os o gwbl.
- Rhywfaint o ymdrech i guddio pibellau a gwifrau sydd wedi'u gosod ar arwynebau.

Pum Seren

- Ansawdd a chyflwr ardderchog drwyddo draw. Bydd teils neu gyfuniad o orffeniadau ar y waliau i gyd, neu'r waliau i gyd fwy neu lai, a bydd y cyfan mewn cyflwr ardderchog. Mae'r seliwr a'r growt fel pin mewn papur.

3.14 Offer Ymolchfa a Gosodiadau

Cydnabyddir y bydd llawer o weithredwyr yn defnyddio ystafelloedd ymolchi math "pod" sydd wedi'u mowldio mewn resin/plastig fel un darn. Mae'r rhain yn dderbyniol ar gyfer unrhyw lefel gradd sêr yn y cynllun hwn.

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Offer ymolchfa a gosodiadau o ansawdd a chyflwr derbyniol ond gallant fod wedi dyddio.
- Dylai fod cyflenwad rhesymol o ddŵr poeth bob amser.
- Gorchuddion ffenestri priodol, sydd wedi'u gosod yn gywir.
- Arwyneb gwastad ar gyfer eiddo'r gwesteion.
- Goleuadau a dulliau awyru o ansawdd digonol.
- Darpariaeth ddigonol ond cynnil o reiliau tywelion.

Dwy Seren

- Offer ymolchfa a gosodiadau o ansawdd eithaf da, ond gallant fod ychydig yn hen ffasiwn neu wedi treulio.
- Efallai nad yw'r offer ymolchfa yn cyfateb a gall y basnau ymolchi, gwaelodion cawod ac ati fod wedi'u gwneud o blastig.
- Gall y basnau ymolchi fod yn fach a gall y gosodiadau cawod fod o ansawdd sylfaenol.
- Digonedd o ddŵr poeth ar adegau prysur.

Tair Seren

- Cawodydd effeithlon gyda'r tymheredd wedi'i osod yn iawn neu reolyddion effeithiol, basnau ymolchi maint safonol, i gyd mewn cyflwr da.
- Dim baddonau na chawodydd bach y mae'n lletchwith mynd i mewn iddynt.
- Gosodiadau golau a gwresogi o ansawdd da.
- Gorchuddion ffenestri sydd wedi'u gosod yn dda ac sy'n ddigon llydan ac uchel i orchuddio'r ffenestr gyfan.
- Digonedd o le ar y silffoedd i gadw eiddo gwesteion.

Pedair Seren

- Darnau gosod a gosodiadau o ansawdd da iawn. Llif pwerus y gellir ei reoli'n llawn yn y cawodydd. Sgrin gawod neu len gawod o safon uchel, i gyd yn edrych yn ffres.
- Bath a gwaelodion cawod o ansawdd da iawn – seramig/enamel neu ddeunydd cyfansawdd, fwy na thebyg.
- Tapiau a chylchoedd/rheilau tywelion o safon uchel heb fawr ddim olion traul amlwg.

Pum Seren

- Gosodiadau cadarn o safon uchel mewn cyflwr ardderchog, i gyd yn cyfateb i'w gilydd.
- Bath cydnerth wedi'i wneud o haearn bwrw neu ddur ac enamel. Ciwbiclau neu sgriniau cawod o safon uchel.
- Digonedd o ddŵr poeth bob amser.
- Digon o le ar reiliau tywelion.
- Rheilen dywelion wedi'i gwresogi, neu reilen dywelion wedi'i gosod uwchben rheiddiadur.

3.15 Lloriau

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Mae'r arferion gorau yn awgrymu bod lloriau y gellir eu golchi yn fwy hylan na charpedi.
- Lloriau digon cyfforddus o safon ymarferol. Gall fod rhai olion traul i'w gweld.
- Heb eu gosod yn broffesiynol o bosibl.

Dwy Seren

- Lloriau sydd mewn cyflwr eithaf da, ond gallant fod o ansawdd gweddol. Gall fod rhai olion traul i'w gweld.

Tair Seren

- Lloriau o ansawdd da sydd wedi'u gosod yn dda, ac sydd mewn cyflwr da, sy'n gyfforddus dan draed.
- Lloriau pren mewn cyflwr da.
- Ymylon a semau wedi'u selio'n dda.

Pedair Seren

- Lloriau o safon uchel, ond nid o reidrwydd yn newydd a gall fod olion traul neu gallant fod o safon is ond mewn cyflwr fel newydd.
- Wedi'u gosod yn broffesiynol fel arfer.

Pum Seren

- Teils o safon uchel wedi'u gosod yn broffesiynol – finyl neu laminad, er enghraifft.
- Os mai teils sydd ar y llawr, mae'r growt a'r seliwr mewn cyflwr ardderchog.

3.16 Goleuadau, Systemau Gwresogi a Dulliau Awyru

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Lefelau goleuo digonol ar gyfer math, maint, a siâp yr ystafell ymolchi. Gall fod yn olau yn y canol yn unig heb fawr ddim golau wrth y basn ymolchi, os o gwbl.

- Lefelau gwresogi digonol ar gyfer maint yr ystafell ar bob adeg resymol. Efallai nad yw'r system yn awtomatig, ond dylai fod yn system sefydlog er diogelwch.
- Dulliau awyru effeithiol. Ffenestr yn unig o bosibl.

Dwy Seren

- Lefelau goleuo eithaf da. Prif olau yn unig o bosibl.
- Mae'r system wresogi yn cynnig lefel addas o wres, a gallai fod yn system awtomatig neu'n un a reolir â thermostat.
- Gall y dulliau awyru fod yn rhai mecanyddol cyfyngedig.

Tair Seren

- Goleuadau mewn mannau da, gan oleuo'r lle yn effeithiol, yn enwedig wrth y drych. Digonedd o olau naturiol.
- Lefelau gwresogi cyfforddus, sy'n briodol i faint yr ystafell ac yn darparu tymheredd a gynhelir.

Pedair Seren

- Goleuadau mewn mannau effeithiol at bob diben, yn enwedig uwchben neu wrth ymyl y drych.
- Gwahanol fathau o oleuadau yn cael eu defnyddio am resymau ymarferol neu esthetig o bosibl, e.e. goleuadau to halogen.
- System wresogi awtomatig a reolir â thermostat sydd wedi'i gosod yn gywir.
- Gall y systemau awyru ymdopi â chyfnodau prysur.

Pum Seren

- Goleuadau o ansawdd da mewn mannau da, gan oleuo'r lle yn effeithiol at ddibenion amrywiol e.e. eillio, coluro ac ati.
- System wresogi awtomatig, ymatebol, a reolir â thermostat. Mae'n bosibl na fydd rhai mathau hŷn o wresogyddion stôr yn bodloni'r gofyniad hwn. Rheilen dywelion wedi'i gwresogi yw'r ffynhonnell wres o bosibl.
- Os oes ffenestr, bydd disgwyl ffan echdynnu yn ogystal â'r ffenestr.

3.17 Lle, Cysur a Hwylustod

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Cyfleusterau o faint digonol, ond braidd yn gyfyngedig mewn mannau o bosibl.
- Pwysedd dŵr digonol a draenio boddhaol.
- Arwyneb gwastad cyfyngedig ar gael ar gyfer eiddo'r gwesteion.

Dwy Seren

- Lefelau eithaf da o gysur a lle. Lle cyfyngedig o bosibl, ond dylai'r gwesteion allu defnyddio'r cyfleusterau yn gyfforddus a gallu defnyddio'r bath, y gawod a'r toiled yn gyfleus.
- Ciwbiclau cawod o faint safonol.

Tair Seren

- Ystafelloedd ymolchi o faint da gyda chiwbiclau cawod o gryn faint, digonedd o le i newid/sychu.
- Darnau gosod a gosodiadau mewn mannau hwylus.

Pedair Seren

- Lleoliad yr offer ymolchfa a gosodiadau wedi'i gynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o gyfleustra a hwylustod.
- Ddigonedd o le ar y silffoedd i gadw pethau ymolchi gwesteion ac ati.

Pum Seren

- Digonedd o le mewn cyfleusterau sydd wedi'u cynllunio'n dda er mwyn diwallu pob angen yn hawdd.
- Digon o ddarpariaeth ar gyfer gosod pethau ymolchi ac offer eillio allan, a hongian dillad.
- Fawr ddim sŵn o bibellau dŵr.

Arferion Da ym maes Hygyrchedd

Gall darparu cyfarpar megis seddi bath, codwyr uchder seddi toiled a chadeiriau cawod fod yn fuddiol i lawer o westeion, yn ogystal â rheiliau cynnal ar gyfer y toiled a'r bath/cawod.

Er mwyn cynorthwyo pobl â nam ar eu golwg, dylai lliw'r toiled, y sinc a'r bath gyferbynnu â lliw waliau'r ystafell ymolchi a'r llawr, a dylai'r tywelion hefyd gyferbynnu mewn rhyw ffordd. Dylech hefyd ystyried cael ffrâm ddrws mewn lliw cyferbyniol.

Wrth ailwampio eich ystafell ymolchi, dylai fod falf cymysgu ar bob un o gosodiadau'r cyflenwad dŵr poeth, sy'n cyfyngu'r dŵr i uchafswm o 41C er mwyn atal sgaldio. Hefyd, dylid darparu tapiâu lifer neu atodion lifer ar y basn ymolchi a'r bath, a'r gawod yn ddelfrydol hefyd.

Er budd pob defnyddiwr, mae'n bwysig bod lloriau ystafelloedd ymolchi yn rhai gwrthlithro. Dylech ystyried darparu cordyn argyfwng wedi'i gysylltu â larwm allanol clywadwy/gweledol.

Os oes mynediad i gadeiriau olwyn, bydd ystafell wlyb sy'n cynnwys basn ymolchi, toiled a chawod ar lefel mynediad hefyd o fudd i bobl sy'n defnyddio cymorth cerdded.

Arferion Da ym maes Cynaliadwyedd

Gellir defnyddio dyfeisiau arbed dŵr fel "Hipos" mewn sestonau toiled a gall darparu cyfleusterau cawod helpu i ddefnyddio llai o ddŵr.

4.0 Pob Man Cyhoeddus

(Gan gynnwys ansawdd a chyflwr lolfeydd, bariau, cynteddau, grisiau, pennau grisiau a thoiledau cyhoeddus a phob rhan o unedau hunangynhwysol os ydynt ar gael).

4.1 Addurno

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Gwaith addurno ymarferol heb fawr ddim yn cyfateb.

Dwy Seren

- Gall y gwaith addurno fod yn hen, ond heb ei ddifrodi na'i grafu'n ormodol.

Tair Seren

- Gwaith addurno sy'n cyfateb.
- Waliau a gwaith paent wedi'u gorffen yn dda.

Pedair Seren

- Gwaith addurno o safon dda iawn.
- Rhywfaint o ymdrech i guddio pibellau a gwifrau sydd wedi'u gosod ar arwynebau.

Pum Seren

- Gwaith addurno mewn cyflwr ardderchog.
 - Gall fod rhywfaint o luniau i'w gweld.
-

4.2 Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Darpariaeth gynnill ond digonol o gelfi, dodrefn meddal a gosodiadau. Gall fod rhywfaint o ddifrod i'w weld, ond mae modd defnyddio'r holl eitemau.
- Gallai'r gosodiadau golau a gwresogi fod yn brin o ansawdd cynhenid.
- Seddi addas mewn cyflwr derbyniol.

Dwy Seren

- Celfi/gosodiadau mewn cyflwr eithaf da heb fawr ddim traul i'w weld. Ansawdd 'domestig' o bosibl.
- Gosodiadau golau a gwresogi o safon eithaf da.

Tair Seren

- Digonedd o gelfi ym mhob ardal. Celfi, dodrefn meddal a gosodiadau o ansawdd da mewn cyflwr da a defnyddiadwy, neu gallant fod o ansawdd gweddol a/neu'n gelfi fflatpac. Rhai mân olion traul.
- Llenni neu fleinds o ansawdd da.
- Maint a niferoedd y celfi yn gymesur â'r ffordd y caiff yr ardal ei defnyddio a'r lle sydd ar gael.

Pedair Seren

- Celfi o ansawdd, nid o reidrwydd yn newydd, ond yn cynnig cryn dipyn o gysur a lle.
- Mae'n debygol bod y seddi'n glustogog a bod digon ohonynt ar gyfer nifer y gwasteion.
- Gosodiadau golau a gwresogi o ansawdd da iawn ac mewn cyflwr da iawn.

Pum Seren

- Ansawdd ardderchog, wedi'u saernio'n gadarn, heb fawr ddim olion traul amlwg.
 - Gosodiadau golau a gwresogi o safon uchel.
-

4.3 Lloriau – Ansawdd a Chyflwr

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Mae'r lloriau'n ddigon cyfforddus. Gall fod rhai olion traul i'w gweld.
- Heb eu gosod yn broffesiynol o reidrwydd.

Dwy Seren

- Lloriau o safon eithaf da, ond gall fod llawer o ffeibrau artiffisial yn y carpedi.

Tair Seren

- Lloriau o ansawdd da sydd wedi'u gosod yn dda, ac sydd mewn cyflwr da, sy'n gyfforddus dan draed.
- Teils a lloriau pren mewn cyflwr da.
- Rhywfaint o haen waelodol o dan y carpedi.

Pedair Seren

- Lloriau o safon uchel, ond nid o reidrwydd yn newydd a gall fod olion traul neu gallant fod o safon is ond mewn cyflwr fel newydd. Wedi'u gosod yn broffesiynol fel arfer.

Pum Seren

- Carpedi o safon uchel sydd wedi'u gosod yn broffesiynol (e.e. cynnwys gwlan uchel, mewn cyflwr ardderchog) a haen waelodol sylweddol.
- Gellir defnyddio'r lloriau i greu effaith mewn cyntedd neu dderbynfa.

4.4 Goleuadau a Systemau Gwresogi – Ansawdd y Ddarpariaeth

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Lefelau goleuo digonol ar gyfer math, maint, a siâp yr ystafell.
- Systemau gwresogi effeithiol ym mhob ardal ar bob adeg resymol.
- Lefelau gwresogi sy'n briodol i faint yr ystafell. Nid system awtomatig na system sefydlog o bosibl.

Dwy Seren

- Lefelau goleuo eithaf da.
- Gall y system wresogi fod yn ddyfais annibynnol, ond gallai fod yn awtomatig neu gael ei rheoli â thermostat.

Tair Seren

- Goleuadau mewn mannau da, gan oleuo'r lle yn effeithiol.
- Lefelau effeithiol o wres sy'n darparu tymheredd a gynhelir.
- System wresogi a reolir â thermostat sydd wedi'i gosod yn gywir.

Pedair Seren

- Lefelau da iawn o olau, lle y gellir defnyddio gwahanol fathau o oleuadau am resymau ymarferol neu esthetig neu i greu naws, e.e. goleuadau to halogen, lampau safonol neu oleuadau lluniau.
- System wresogi awtomatig sydd wedi'i gosod yn gywir ac y gellir ei rheoli â thermostat.

Pum Seren

- Amrywiaeth o fathau o oleuadau yn goleuo'r lle yn dda at bob diben ymarferol, a gellir eu defnyddio i greu pwyslais mewn rhai mannau.
- Gwneir ymdrech gadarnhaol i sicrhau bod y system wresogi yn diwallu anghenion y gwesteion. Ffynhonnell wres wrth gefn ar gyfer tywydd oer iawn.

4.5 Lle, Cysur a Hwylustod

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Lle i'r holl gelfi angenrheidiol, ond mae'n bosibl mai prin y cafodd y cynllun ei ystyried.
- Amgylchedd derbyniol i westeion heb fod sŵn ac ati yn amharu arnynt.

Dwy Seren

- Mannau taclus â llawer mwy o le defnyddiadwy.
- Gellid gwneud y lle'n fwy cyfforddus i westeion.

Tair Seren

- Derbynfa sy'n ddigon mawr i westeion a'u bagiau.
- Digon o le i alluogi lefel dda o gysur i westeion.

Pedair Seren

- Cynllun wedi'i ystyried yn ofalus er mwyn gwneud y gorau o'r lle gwag sydd ar gael.
- Fawr ddim sŵn yn amharu ar westeion.

Pum Seren

- Ystafelloedd mawr, wedi'u cynllunio'n dda gyda celfi mewn lleoedd addas a chyfleus. Defnydd hawdd a chyfleus o gyfleusterau. Digonedd o le.
- Digon o awyr iach.

5.0 Ystafell Fwyta neu Fwyty – Ansawdd a Chyflwr

5.1 Addurno

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Gwaith addurno ymarferol heb fawr ddim yn cyfateb.

Dwy Seren

- Gwaith addurno yn hen o bosibl ond heb ei ddfirodi, ei grafu na'i rwygo. Dim staeniau bwyd.

Tair Seren

- Gorchuddion waliau a gwaith paent o ansawdd da wedi'u gorffen yn dda, gyda gorchuddion waliau a nenfydau wedi'u taenu'n dda.

Pedair Seren

- Gwaith addurno o safon dda iawn gyda'r defnydd o luniau a phrintiau o safon uchel lle y bo'n berthnasol.
- Rhywfaint o ymdrech i guddio pibellau a gwifrau sydd wedi'u gosod ar arwynebau.

Pum Seren

- Gwaith addurno ardderchog lle rhoddir llawer o sylw i fanylder. Patrymau, lliwiau a gweadau yn cyfateb mewn ffordd ystyriol.

- Defnydd deniadol o luniau, printiau ac addurniadau eraill.

5.2 Celfi, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Celfi a dodrefn meddal o ansawdd ac amrywiaeth ddigonol. Heb eu paru'n dda iawn. Celfi bwyta ddim yn cyfateb i'w gilydd o bosibl.
- Gosodiadau golau a gwresogi o ansawdd a diogelwch derbyniol ar gyfer math, maint a siâp yr ystafell.
- Gorchuddion ffenestri wedi'u gosod yn gywir.

Dwy Seren

- Celfi, dodrefn meddal a gosodiadau o ansawdd eithaf da, yn gadarn ac yn addas i'r diben. Fel arall, gall y celfi fod o ansawdd ardderchog o'r blaen ond bellach yn dangos eu hoed ac olion traul.
- Gosodiadau golau a gwresogi o ansawdd eithaf da ac mewn cyflwr da.

Tair Seren

- Celfi o ansawdd da ac mewn cyflwr da. Maint a niferoedd y celfi yn gymesur â'r lle sydd ar gael.
- Paru da.
- Gosodiadau golau a chysgodlenni o ansawdd da, heb farciau llosg.

Pedair Seren

- Celfi, dodrefn meddal a gosodiadau o safon uchel ac mewn cyflwr da iawn. Nid yw'r celfi o reidrwydd yn newydd, ond maent yn cynnig cryn dipyn o gysur o hyd.
- Llenni llawn, gydag addurniadau ychwanegol fel clymau o bosibl.

Pum Seren

- Yr holl gelfi o safon uchel ac mewn cyflwr ardderchog.
- Amrywiaeth o fathau o gosodiadau golau o ansawdd ardderchog.
- Gosodiadau gwresogi mewn cyflwr ardderchog.

5.3 Lloriau – Ansawdd a Chyflwr

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Mae'r lloriau'n ddigon cyfforddus. Gall fod rhai olion traul i'w gweld.
- Heb eu gosod yn broffesiynol o reidrwydd.

Dwy Seren

- Lloriau o safon eithaf da, ond gall fod llawer o ffeibrau artiffisial yn y carpedi.

Tair Seren

- Lloriau o ansawdd da sydd wedi'u gosod yn dda, ac sydd mewn cyflwr da, sy'n gyfforddus dan draed.
- Teils a lloriau pren mewn cyflwr da.
- Rhywfaint o haen waelodol o dan y carpedi.

Pedair Seren

- Lloriau o safon uchel, ond nid o reidrwydd yn newydd a gall fod olion traul neu gallant fod o safon is ond mewn cyflwr fel newydd. Wedi'u gosod yn broffesiynol fel arfer.

Pum Seren

- Carpedi o safon uchel, wedi gosod yn broffesiynol gyda haen waelodol sylweddol.
- Estyll llathredig neu laminad o safon uchel.

5.4 Goleuadau a Systemau Gwresogi – Ansawdd y Ddarpariaeth

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Lefelau goleuo digonol ar gyfer math, maint a siâp yr ystafell. Mae angen iddynt fod yn ddigon da i allu darllen bwydlenni ac ati.
- Systemau gwresogi effeithiol ym mhob ardal ar bob adeg resymol.
- Lefelau gwresogi sy'n briodol i faint yr ystafell. Nid system awtomatig na system sefydlog o bosibl.

Dwy Seren

- Lefelau goleuo eithaf da. Gall y system wresogi fod yn ddyfais annibynnol, ond gallai fod yn awtomatig neu gael ei rheoli â thermostat.

Tair Seren

- Goleuadau mewn mannau da, gan oleuo'r lle yn effeithiol.
- Lefelau effeithiol o wres sy'n darparu tymheredd a gynhelir.
- System wresogi a reolir â thermostat sydd wedi'i gosod yn gywir.

Pedair Seren

- Lefelau da iawn o olau, lle y gellir defnyddio gwahanol fathau o oleuadau am resymau ymarferol neu esthetig neu i greu naws, e.e. goleuadau to halogen, lampau safonol neu oleuadau lluniau.

- System wresogi awtomatig sydd wedi'i gosod yn gywir ac y gellir ei rheoli â thermostat.

Pum Seren

- Amrywiaeth o fathau o oleuadau yn goleuo'r lle yn dda at bob diben ymarferol, fel darllen bwydlenni ac ati.
- Gellir eu defnyddio i greu pwyslais mewn rhai manau.
- Gwneir ymdrech gadarnhaol i sicrhau bod y system wresogi yn diwallu anghenion y gwesteion. Ffynhonnell wres wrth gefn ar gyfer tywydd oer iawn, a ffaniau ar gyfer tywydd poeth efallai.

5.5 Lle, Cysur a Hwylustod

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Mae'r ystafell yn ddigon mawr, ond prin y cafodd y cynllun ei ystyried.
- Mae'r byrddau'n ddigon mawr, gyda lle derbyniol i symud o'u cwmpas.
- Gellir sylwi ar rywfaint o sŵn sy'n amharu ar westeion.

Dwy Seren

- Bydd angen i'r ystafell fod yn fwy o faint gyda chryn dipyn mwy o le defnyddiadwy o gwmpas byrddau a chelfi eraill. Gallai'r ystafell fod yn llai, ond mae'r gwaith cynllunio gofalus yn golygu bod y lle gwag yr un mor ddefnyddiadwy.

Tair Seren

- Cynllun da a digon o le i symud o gwmpas fel y gall staff a chwsmeriaid fynd heibio heb anghyfleustra.
- Byrddau a chadeiriau o uchder priodol Cadeiriau ymarferol a chyfforddus.

Pedair Seren

- Cynllun y celfi wedi'i ystyried yn ofalus er mwyn gwneud y gorau o'r lle gwag sydd ar gael.

Pum Seren

- Ystafell fawr, wedi'i chynllunio'n dda gyda chelfi mewn lleoedd addas a chyfleus.
- Cyfforddus iawn, cadeiriau cyfforddus mewn lleoedd addas, byrddau mawr.

6.0 Aseidiadau Ansawdd Dros Nos

Os bydd asesydd yn aros dros nos fel rhan o'r broses raddio, caiff yr agweddau canlynol

eu hasesu hefyd a chaiff adborth ei roi ar y meysydd hyn. Bydd y sgoriau ar gyfer y meysydd hyn yn rhan o'r radd sêr derfynol gyffredinol.

6.1 Gweithdrefnau Archebu Llety a Phrisiau

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Dim ond manylion sylfaenol y gwestai a gymerir.

Dwy Seren

- Dull archebu cymwys.

Tair Seren

- Dull trefnus o drefnu lle ac ymdrin â gohebiaeth, cwynion ac ati.
- Caiff rhyw fath o gadarnhad ei gynnig.
- Parodrwydd i helpu gwesteion wrth iddynt gyrraedd.

Pedair Seren

- Gweithdrefn archebu gymwys ac effeithlon lle y cynigir cyfarwyddiadau.
- Cadarnhad drwy e-bost, neges destun neu lythyr.
- Dylai'r staff ddangos ble mae'r manau cyhoeddus, neu dylid rhoi copi arall o'r map o'r safle.

Pum Seren

- Ffordd broffesiynol o archebu llety sy'n gwneud i'r gwestai deimlo bod croeso iddo ac yn rhoi hyder iddo fod y manylion wedi cael eu cofnodi'n gywir.
- Llythyr cadarnhad a chyfarwyddiadau drwy'r post neu drwy e-bost.
- Tywys gwesteion i'w hystafelloedd, gan gynnig cymorth i gario bagiau. Esbonio cyfleusterau'r llety a'r ystafelloedd gwely.
- Defnydd priodol o enw'r gwestai.
- Cynnig lluniaeth wrth gyrraedd, fel y bo'n briodol.

6.2 Lletygarwch a Chyfeillgarwch

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Dim llawer o gyswllt na rhyngweithio â gwesteion. Efallai nad oes gan y staff sgiliau rhyngweithio â chwsmeriaid.

Dwy Seren

- Mae'r staff yn delio â phob gwestai yn brydlon, yn gwrtais ac yn barod i helpu.

Tair Seren

- Agwedd gadarnhaol a chyfeillgar gan reolwyr a staff sydd wedi'u gwisgo'n drwsiadus.
- Argraff gyntaf ac olaf dda, a gwên groesawgar.

Pedair Seren

- Gwasanaeth sylwgar a mwy personol gyda lefelau da iawn o ofal cwsmeriaid, megis defnyddio enw'r gwestai.
- Ffordd ragweithiol o ymdrin â gwesteion, gan wneud ymdrech i ryngweithio'n gymdeithasol a chynnal sgwrs.
- Os na chaiff pryd nos ei weini, rhoddir help, ar gais, i ddod o hyd i le i fwyta/yfed.
- Rhoddir croeso cynnes i'r gwesteion wrth iddynt gyrraedd.

Pum Seren

- Caiff gwesteion eu cyfarch yn bersonol wrth gyrraedd.
- Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion gwesteion unigol ac yn eu rhagweld ymlaen llaw, ac maent yn fwy na pharod i helpu.
- Os na chaiff pryd nos ei weini, rhoddir gwybodaeth fanwl a/neu fwydlenni ar gyfer opsiynau bwyta lleol.
- Darperir gwasanaethau ychwanegol fel llaeth ffres, ffôn, gwybodaeth am yr ardal leol ac argymhellion ar gyfer lleoedd i fwyta ac ati.
- Argraff gyntaf ac olaf ardderchog.

6.3 Gwasanaeth Brecwast

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Sgiliau cymdeithasol a gwasanaeth digonol.
- Caiff y byrddau eu gosod yn briodol neu mae'n hawdd cael gafael ar gyllyll a ffyrc.

Dwy Seren

- Gwasanaeth cymwys gan staff sy'n barod i helpu.

Tair Seren

- Cyflenwad cyson o eitemau bwffe.
- Dim oedi diangen.

Pedair Seren

- Gwasanaeth mwy sylwgar fel clirio byrddau'n brydlon.

Pum Seren

- Staff â sgiliau gwasanaeth ardderchog a ffordd ragweithiol o weithio.

- Gwasanaeth effeithlon heb giwiau a phlatiau ac ati'n cael eu clirio'n brydlon.
- Os caiff diodydd a/neu dost eu gweini wrth y bwrdd, dylai'r gwasanaeth fod yn brydlon a dylid cadw golwg ar lefelau boddhad.
- Disgrifiadau clir o'r seigiau sydd ar gael a'u prisiau.

6.4 Brecwast – Ansawdd a Chyflwyniad

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Bwydlen osod o bosibl, gyda sudd ffrwythau, grawnfwyd, bacwn ac wy, tost, coffi a the, er enghraifft. Gall fod yn frecwast cyfandirol yn unig.
- Caiff yr holl fwyd poeth ei goginio a'i gyflwyno'n briodol.
- Cymerir gofal i sicrhau bod pob sudd yn oer, bod tost yn gras a bod te a choffi yn cael eu gwneud yn ffres.

Dwy Seren

- Caiff bwyd ei weini ar y tymheredd cywir, ar blât poeth neu oer fel y bo'n briodol.
- Dewis cyfyngedig ar gael.
- Caiff bwyd ei baratoi â lefel eithaf de o ofal.

Tair Seren

- Dewis o eitemau o ansawdd da ar gael, e.e. ffrwythau, dewis o rawnfwydydd, selsig, tomato, tost brown neu wyn ac amrywiaeth o gyffeithiau.
- Bwffe deniadol (os darperir un).
- Caiff eitemau wedi'u coginio'n ffres eu gweini ar y tymheredd cywir.
- Rhoddir sylw arbennig i ansawdd y bwyd yn hytrach na dewis helaeth.

Pedair Seren

- Mwy o ddewis o eitemau ar gael, gan gynnwys bwydlen arbennig. Caiff wyau eu coginio ar archeb.
- Defnydd amlwg o gynhwysion ffres wedi'u coginio a'u cyflwyno â lefel uchel o ofal a sylw i fanylder.

Pum Seren

- Cynhwysion ffres o safon uchel a dewis amrywiol o eitemau, e.e. suddion ffrwythau, coffi mât ffres, dewis o de, caws a chig oer a chynnyrch siop fara o safon uchel.
- Defnydd da o gynnyrch a dyfir yn lleol neu yn y wlad hon ac arbenigeddau rhanbarthol lle y bônt ar gael.

6.5 Gwasanaeth Pryd Nos

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Sgiliau cymdeithasol a gwasanaeth digonol.
- Caiff y byrddau eu gosod yn briodol ar gyfer pryd nos neu mae'n hawdd cael gadael ar gyllyll a ffyrc.

Dwy Seren

- Gwasanaeth cymwys gan staff sy'n barod i helpu.
- Gwybodaeth resymol am fwyd a diod.

Tair Seren

- Os caiff pryd nos ei weini, caiff y seigiau sydd ar gael eu hesbonio ar lafar neu'n ysgrifenedig.
- Cyflenwad cyson o eitemau bwffe.
- Gwybodaeth dda am fwyd a diod.
- Rhediad da i'r gwasanaeth pryd nos.

Pedair Seren

- Gwybodaeth o safon uchel am fwyd a diod.
- Gwasanaeth mwy sylwgar fel clirio byrddau'n brydlon a chadw golwg ar lefelau boddhad.

Pum Seren

- Staff â lefelau sgiliau uwch sy'n darparu gwasanaeth effeithlon mewn ffordd ragweithiol.
- Disgrifiadau cynhwysfawr o'r seigiau sydd ar gael ac, os mai gwasanaeth bwrdd a gynigir, dylai fod amseru da o ran pryd i weini'r gwahanol gyrsiau.
- Gall y staff roi cyngor i'r gwesteion ar y fwydlen a'r rhestr winoedd (lle y cânt eu darparu).

6.6 Pryd Nos (lle y caiff ei ddarparu) – Ansawdd a Chyflwyniad

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Bwydlen osod o bosibl, ond gyda dewis amgen ar gael ar gais.
- Dim llawer o addurno na garneisio. Bwffe a cherfdy wedi'u cyflwyno'n syml.
- Dewis llysieuol ar gael.

Dwy Seren

- Caiff bwyd ei weini ar y tymheredd cywir, ar blât poeth neu oer fel y bo'n briodol.
- Dewis cyfyngedig ar gael.
- Caiff prydau eu paratoi â lefel eithaf da o ofal.

Tair Seren

- Bwyd wedi'i gyflwyno'n dda ac wedi'i goginio'n ffres o gynhwysion o ansawdd da. Tystiolaeth o rai cynhwysion ffres yn cael eu defnyddio.
- Rhoddir sylw arbennig i ansawdd y bwyd yn hytrach dewis helaeth.

Pedair Seren

- Defnydd amlwg o gynhwysion ffres wedi'u coginio â lefel uchel o ofal a sylw i fanylder.

Pum Seren

- Coginio ardderchog a phwyslais ar gynhwysion ffres, tymhorol a lleol wedi'u coginio'n fedrus.
- Pwyslais mawr ar ansawdd bwyd cyson.
- Gofal a sylw i fanylder a golwg y bwyd, gan wneud i'r bwyd edrych yn ddeniadol.
- Amrywiaeth ehangach o ddewisiadau deietegol ar gael.

6.7 Llestri Bwrdd

Dangosyddion Ansawdd Graddau Sêr

Un Seren

- Llestri ac ati ar gyfer y bwrdd o safon dderbyniol, e.e. ysgafn, dur gwrthstaen, a napcynnau papur un haen.
- Mae'r bwydlenni, lle y cânt eu darparu, wedi'u hysgrifennu â llaw ar gerdyn neu fwrdd du o bosibl, ond yn lân ac yn rhoi gwybodaeth sylfaenol.

Dwy Seren

- Llestri a chyllyll a ffyrc yn cyfateb i'w gilydd ar y cyfan, a napcynnau o ansawdd gwell. Eitemau brechwast sylfaenol fel llaeth a siwgr ar gael ar y bwrdd/byrddau, a digon ohonynt ar gyfer nifer y gwesteion sy'n bwyta.
- Cynwysyddion halen a phupur llawn ar y byrddau yn ystod pob pryd bwyd.

Tair Seren

- Byrddau wedi'u gosod yn dda a chyllyll a ffyrc a llestri sy'n cyfateb i'w gilydd.
- Napcynnau papur o ansawdd da.
- Mae'r bwydlenni, lle y cânt eu darparu, yn lân ac yn ddeniadol.

Pedair Seren

- Llestri a chyllyll a ffyrc o ansawdd da iawn. Lliain bwrdd, matiau bwrdd a/neu napcynnau wedi'u gwneud o liain neu bapur o ansawdd da iawn.
- Blodau neu addurn priodol arall ar y byrddau.

Pum Seren

- Llestri ac ati ar gyfer y bwrdd o'r safon uchaf, ategolion a llestri gwydr o ansawdd.
- Bwydlenni ac ati yn ddeniadol ac yn defnyddio cynllun clir a llawn gwybodaeth a disgrifiadau defnyddiol.

7.0 Cod Ymddygiad

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr ddilyn a chadw at y Cod Ymddygiad canlynol:

- Rhaid trefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu ryw beth tebyg a chydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cynllunio a diogelwch cymwys a rhwymedigaethau statudol eraill cymwys sydd ar waith.
- Rhaid cyrraedd safonau derbynol o ofal a gwasanaeth i westeion, sy'n briodol ar gyfer y math o sefydliad.
- Rhaid i'r busnes gyrraedd safon uchel o lendid, a hynny'n gyson ymhob rhan o'r eiddo.
- Rhaid rhoi disgrifiad cywir o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw hysbyseb, llyfryn neu gyfryngau/deunydd marchnata print neu ddigidol arall.
- Sicrhau bod gwesteion yn gwybod beth yn union sydd wedi'i gynnwys ymhob proses a gweithdrefn a ddyfynnir, gan gynnwys trethi ac unrhyw daliadau eraill. Rhaid hefyd nodi'n glir fanylion taliadau am wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol ar adeg archebu.
- Dylai gwesteion gael datganiad polisi clir ar ganslo gwyliau ar adeg archebu h.y. dros y ffôn, drwy e-bost, yn ogystal â'r wybodaeth a roddir mewn print.
- Cadw at y prisiau a ddyfynnwyd ar adeg archebu llety, ffioedd mynediad a gwasanaethau eraill, a pheidio â chodi mwy.
- Rhoi gwybod i westeion ar adeg archebu, ac wedi hynny, am unrhyw newid, os caiff y llety ei gynnig mewn anecs ar wahân neu ryw beth tebyg a dynodi lleoliad llety o'r fath ac unrhyw wahaniaeth o ran lefelau cysur a/ neu amwynderau i'r llety yn y sefydliad.
- Ar gais, rhoi manylion taliadau sy'n ddyledus a derbynneb, os bydd angen, i westeion.
- Delio â phob ymholiad, cais, archeb a gohebiaeth gan westeion yn brydlon a chwrtais.
- Sicrhau bod gweithdrefnau delio â chwynion ar waith ac yr ymchwili i bob cwyn a ddaw i law yn brydlon ac yn gwrtais, a bod y gwesteion yn cael gwybod y canlyniad.

- Rhoi sylw priodol i ofynion unigol gwesteion ag anableddau, a gwneud darpariaeth addas lle y bo'n gymwys.

8.0 Amodau ar gyfer Cymryd Rhan

Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau Croeso Cymru:

- Ddilyn Cod Ymddygiad Croeso Cymru.
- Caniatáu i gynrychiolydd o Croeso Cymru neu ar ran Croeso Cymru gael mynediad rhesymol i'r busnes, ar gais, er mwyn sicrhau bod gofynion statws "Aseswyd" a'r "Cod Ymddygiad" yn cael eu bodloni'n llawn.
- Darparu datganiad mynediad/canllaw hygyrchedd.
- Rhaid i bob busnes gyflawni ei Rwymedigaethau Statudol.
- Ni all unrhyw fusnes sy'n cynnig llety i breswylwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau nac sy'n gweithredu fel hostel lloches gymryd rhan yn y cynllun.

9.0 Newid Perchenogaeth

Pan gaiff sefydliad ei werthu, ni all y radd bresennol gael ei throsglwyddo i'r perchennog newydd. Rhaid i'r perchennog newydd wneud cais i gymryd rhan yng nghynllun gradd sêr Croeso Cymru.

10.0 Arwyddion

Arwyddion, Tystysgrifau a Logos Electronig. Pan na fydd sefydliad, am ba reswm bynnag, yn cymryd rhan yng Nghynllun Ansawdd Croeso Cymru sy'n gymwys i'w fath o fusnes mwyach, rhaid cael gwared ar unrhyw arwyddion/tystysgrifau perthnasol a logos cysylltiedig Croeso Cymru a thestun ar ddeunydd argraffedig ar unwaith. Os na wneir hyn, ni fydd modd i'r sefydliad arddangos na defnyddio ardystiad Croeso Cymru mewn unrhyw ffordd o gwbl.

11.0 Beth i'w Wneud Os Na Fyddwch yn Cytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd

Os na fyddwch yn cytuno â'r radd sêr y mae eich eiddo wedi'i chael, neu os na fyddwch yn cytuno ag unrhyw agwedd ar adroddiad yr Asesydd Ansawdd, cysylltwch cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gael eich adroddiad ysgrifenedig.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar
0845 0108020 neu anfonwch e-bost i
quality.tourism@llyw.cymru a gwnawn
geisio helpu.

Fel arall, efallai y byddwch am ysgrifennu
atom yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

Ffôn: 0845 010 8020

Ffacs: 0300 062 2081

E-bost: quality.tourism@llyw.cymru